



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cytundebau Fframwaith

Nodyn Cyngor Caffael i Sector Cyhoeddus Cymru

Cynnwys

Adran

Rhif Tudalen

1. Cyflwyniad.....	3
2. Y Cefndir – Caffael Cyhoeddus yng Nghymru.....	3
3. Contract a Fframwaith.....	5
4. Ystyriaethau Cynnar (gan gynnwys Newidiadau i Wasanaethau).....	6
5. Sefydlu Cytundeb Fframwaith Effeithiol.....	15
6. Polisiâu ac Offer Caffael Llywodraeth Cymru.....	22
7. Hysbysebu'r Cytundeb Fframwaith	26
8. Y Broses Dendro.....	27
9. Manteision Ôl-drafodaeth gyda'r Cyflenwr	32
10.Caffael yn ôl y Gofyn.....	32
11.Pwysigrwydd Rheoli Contractau.....	34
12.Addasu Fframweithiau yn ystod eu Cyfnod.....	35
13.Pethau i'w Gwneud a Phethau i Beidio â'u Gwneud.....	37
14.Cwestiynau Cyffredin.....	38
15.Canllawiau ac Offer.....	41
16.Cydnabyddiaeth.....	41

1. Cyflwyniad

Pwyntiau i'w Nodi – gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr adran hon yn gyntaf

- *Nid cyngor cyfreithiol yw'r wybodaeth a roddir yn y Nodyn Cyngor Caffael hwn ac ni fwriadwyd iddo fod yn gynhwysfawr – dylai awdurdodau contractio geisio eu cyngor annibynnol eu hunain fel sy'n briodol. Dylech hefyd gofio bod y gyfraith yn newid yn gyson a dylid ceisio cyngor mewn achosion unigol. Mae'r ddogfen hon yn gywir yng Ngorffennaf 2017.*

Beth yw nod y Nodyn Cyngor Caffael hwn?

Cyhoeddwyd y Nodyn Cyngor Caffael gwreiddiol gan Lywodraeth Cymru yn 2012 ac mae wedi cael ei ddiweddarau yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Rheoliadau 2015). Nid yw'r rheolau sy'n ymwneud â chytundebau fframwaith yn Rheoliadau 2015 wedi newid llawer – y prif newidiadau yw eglurhad o'r rheolau sy'n ymwneud â nodi defnyddwyr cytundebau fframwaith, a rhagor o hyblygrwydd wrth sefydlu cytundebau fframwaith aml-gyflenwr a chaffael yn ôl y gofyn (Rheoliad 33).

Nod y Nodyn Cyngor Caffael (PAN) yw annog dull gweithredu cyson wrth ymdrin â chytundebau fframwaith ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn Llywodraeth Cymru ac ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru – yn enwedig rhai sydd o natur gydweithredol gan eu bod yn tueddu i fod yn fwy cymhleth – a sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu a'u defnyddio yn effeithiol ac yn gywir, yn unol â Datganiad Polisi Caffael Cymru (yr ymdrinnir ag ef yn nes ymlaen yn yr adran hon) gan ddefnyddio canllawiau polisi ac offer caffael Llywodraeth Cymru. Cynlluniwyd y Nodyn Cyngor Caffael hwn er mwyn diwallu anghenion staff caffael ar bob lefel sydd â'u gwybodaeth am gaffael yn amrywio. Gall defnyddwyr naill ai weithio eu ffordd drwyddo gam wrth gam neu, os oes arnynt angen arweiniad penodol mewn maes arbennig, gallant fynd yn syth i'r adran honno neu at y Cwestiynau Cyffredin ar ddiwedd y ddogfen.

2. Y Cefndir – Caffael Cyhoeddus yng Nghymru

Mae caffael cyhoeddus yng Nghymru'n cael ei ategu gan Ddatganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC) sy'n cynnwys deg egwyddor y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt fod yn sail i gaffael cyhoeddus. Gallwch weld y Datganiad drwy ddefnyddio'r ddolen isod:-

<http://llyw.cymru/topics/improvingservices/better/vfm/publications/procurement-policy-statement/?skip=1&lang=cy>

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd mwy o gydweithio yn y sector cyhoeddus – yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig ac ar draws Ewrop – gyda'r bwriad o ddod â gofynion at ei gilydd er mwyn dileu dyblygu a sicrhau gwell gwerth am arian. Mae polisiâu caffael Llywodraeth Cymru, drwy'r Datganiad, yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng hynny a'r angen i agor cyfleoedd i gwmnïau bach a chyflenwyr trydydd sector a chryfhau'r economi yng Nghymru.

Mae cydweithredu wedi'i gynnwys yn Egwyddor 7 yn y Datganiad:

“Cydweithredu – dylid mynd i'r afael â meysydd o wariant cyffredin ar y cyd gan ddefnyddio dulliau a manylion safonol a reolir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) i leihau dyblygu, i gael yr ymateb gorau gan y farchnad, i wreiddio egwyddorion y Datganiad Polisi hwn er budd Cymru; ac i rannu adnoddau ac arbenigedd.”

Mae'r egwyddor hon yn mynd ymlaen i amlinellu beth mae'n ofynnol i sector cyhoeddus Cymru ei wneud:-

- *Cymryd rhan yn y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol er lles Cymru a'r sefydliad unigol*
- *Ystyried cyfleoedd ar gyfer mentrau caffael cydweithredol pellach*
- *Monitro ac adrodd ar ymgysylltu â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a chynlluniau cydweithredol eraill*

Mae hefyd yn nodi beth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud:-

- *Cyflwyno contractau a fframweithiau cydweithredol drwy Wasanaeth Caffael Cenedlaethol hyd at £2.2bn o werth dros y 2 flynedd nesaf*
- *Cefnogi cydweithio ac agenda ehangach gwasanaethau a rennir*

Mae'n debyg y bydd pob un o egwyddorion y Datganiad yn berthnasol ar ryw adeg neu'i gilydd yn y broses o osod cytundeb fframwaith, gan gynnwys ystyried yr effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol (Egwyddor 3), ystyried Manteision Cymunedol (Egwyddor 4), sicrhau cystadleuaeth agored a hygyrch (Egwyddor 5) a phrosesau safonol a syml (Egwyddor 6).

Bydd y Nodyn Cyngor Caffael hwn yn eich helpu drwy'r broses, gan sicrhau bod fframwaith effeithiol yn cael ei osod, a bod y fframwaith hwnnw'n adlewyrchu egwyddorion y Datganiad gan sicrhau budd i brynwyr a chyflenwyr drwy gefnogi'r economi, swyddi a thwf yng Nghymru.

Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

Sefydlwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) yn 2013 ac mae'n gyfrifol am sefydlu contractau cydweithredol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu'n aml yn sector cyhoeddus Cymru. Mae'r NPS yn mabwysiadu egwyddorion y Datganiad ym mhob un o'i fframweithiau ac yn nodi cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi os oes modd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, y fframweithiau presennol a gwaith yn y dyfodol drwy ddilyn y ddolen isod:-

<http://nps.gov.wales/?skip=1&lang=cy>

3. Mathau o Gytundebau

Y gwahaniaeth mwyaf rhwng contractau a chytundebau fframwaith yw lefel yr ymrwymiad sy'n ofynnol gan y ddau barti.

Y cytundebau sy'n cael eu defnyddio fwyaf gan y sector cyhoeddus yw contractau a chytundebau fframwaith. Yn ôl y gyfraith, mae contract a chytundeb fframwaith yn ddau beth gwahanol iawn. Y gwahaniaeth mwyaf rhyngddynt yw'r 'ymrwymiad' sy'n ofynnol gan y ddau barti, hynny yw, gwarantu niferoedd / meintiau. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn fanylach isod.

Contractau

Mae contract (yn y cyd-destun hwn) yn golygu cytundeb rhwng "awdurdod contractio" (corff cyhoeddus) a chyflenwr, lle mae'n ofynnol i'r cyflenwr gyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau yn gyfnewid am 'gydnabyddiaeth' (swm o arian fel arfer, er y gall fod ar ffurf arall). Mae'r trefniant hwn yn gytundeb rhwng yr awdurdod contractio a'r cyflenwr, lle mae'r awdurdod contractio yn cytuno i dalu am y nwyddau, gwasanaethau neu waith, fel y nodir yn y contract, y mae'r cyflenwr yn cytuno i'w darparu.

Cytundebau Fframwaith

Mae Rheoliad 33 yn Rheoliadau 2015 yn diffinio cytundeb fframwaith fel a ganlyn:

"An agreement between one or more contracting authorities and one or more economic operators, the purpose of which is to establish the terms governing contracts to be awarded during a given period, in particular with regard to price and, where appropriate, the quantity envisaged."

Y cyfan y mae cytundeb fframwaith yn ei wneud yw amlinellu telerau cytundeb sy'n galluogi corff cyhoeddus i brynu nwyddau, gwasanaethau neu waith, ac fel arfer nid oes ymrwymiad i ddefnyddio'r cytundeb. Nid oes cydnabyddiaeth o flaen llaw; yn hytrach, mae contract yn cael ei wneud bob tro y mae'r awdurdod contractio'n caffael o'r fframwaith yn ôl y gofyn ac yn prynu nwyddau, gwasanaethau neu waith.

Mae'r dyddiad y daw'r cytundeb fframwaith i ben wedi'i nodi ymlaen llaw, ac uchafswm hyd cytundeb fframwaith dan Reoliadau 2015 yw 4 blynedd, oni bai fod rhesymau eithriadol dros ei ymestyn. Nid yw'r ffaith fod cytundeb fframwaith yn bodoli'n golygu bod rhaid i ddarpar brynwyr brynu rhywbeth, ond disgwylir i awdurdodau contractio sydd wedi cofrestru fel defnyddwyr cytundeb fframwaith ei ddefnyddio. Yn aml iawn defnyddir fframweithiau ar gyfer nwyddau, gwaith neu wasanaethau y mae ar nifer o awdurdodau contractio eu hangen, gan gymryd y bydd y niferoedd mwy yn arwain at well prisiau a thelerau. Maent hefyd yn cael eu defnyddio pan fydd awdurdodau contractio'n nodi bod angen gwneud pryniant fwy nag unwaith dros gyfnod, ond nad ydynt yn gallu dweud faint yn union y bydd arnynt eu hangen neu pryd yn union y bydd yr angen yn codi.

Cytundebau Fframwaith a'r Gyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus

Mae Cyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd (UE) 2014/24/EU ('y Gyfarwyddeb') sy'n rheoli cyfraith caffael y sector cyhoeddus ledled yr UE, yn cynnwys darpariaeth ar gytundebau fframwaith dan Erthygl 33. Mae Rheoliadau 2015 yn gweithredu'r Gyfarwyddeb hon yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a daeth i rym ar 26 Chwefror 2015.

Rhestrau Cymeradwy o Gyflenwyr

Nid yw defnyddio 'rhestrau cymeradwy' yn cael ei argymhell. Yn aml iawn, nid yw'r trefniadau hyn wedi bod drwy broses gystadleuol, felly ni ellir dweud a ydynt yn cynnig gwerth am arian. Weithiau hefyd, ar ôl i restrau cymeradwy gael eu sefydlu, gall amser maith fynd heibio cyn i gyflenwyr newydd gael cyfle i ymuno, os ydynt yn cael cyfle o gwbl. Gall y broses fod yn annheg ac nid yw'n dryloyw.

4. Ystyriaethau Cynnar

Yn bennaf oll, y gyfrinach i unrhyw un sydd eisiau bod yn llwyddiannus yw bod yn barod (Henry Ford)

Cyn penderfynu sefydlu cytundeb fframwaith, mae ystyriaethau cynnar y dylai awdurdodau contractio feddwl amdanynt. Dylai'r rhain eu helpu i benderfynu ai cytundeb fframwaith yw'r dewis gorau.

Gall cytundeb fframwaith wedi'i gynllunio'n ofalus sy'n cael ei ddefnyddio'n dda gynnig llawer o fanteision ac arbed amser/arian gan fod y defnyddwyr yn gallu caffael beth bynnag maent ei angen yn ôl y gofyn. Ar y llaw arall, gall fframwaith wedi'i gynllunio'n wael sy'n cael ei ddefnyddio'n anghywir achosi problemau i brynwyr a chyflenwyr ac mae risg y bydd yn cael ei herio.

A yw cytundeb fframwaith yn addas i'r hyn rydych yn ei gaffael?

Nid yw cytundebau fframwaith yn addas i bob caffaeliad ac ambell waith bydd trefniant arall yn fwy addas, er enghraifft contract cyffredin neu system brynu ddynamig sy'n caniatáu i ragor o gyflenwyr gael eu cynnwys. Bydd angen i'r awdurdod contractio benderfynu, ar sail gwerth am arian, ai cytundeb fframwaith – ac mewn rhai achosion cytundeb fframwaith cydweithredol yn cynnwys awdurdodau contractio eraill – yw'r ateb mwyaf priodol.

Yn gyffredinol, mae fframweithiau'n gweithio'n dda wrth brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith safonol, a lle mae'n bosibl cael gwell prisiau neu fanteision eraill sy'n gysylltiedig â gwerth am arian drwy ddod â niferoedd at ei gilydd. Fodd bynnag, ar gyfer rhai meysydd, er enghraifft gwasanaethau proffesiynol, gofal cymdeithasol neu adeiladu, yr hyn sy'n allweddol yw gallu'r darparwr / contractwr i deilwra ei wasanaethau penodol ar gyfer yr hyn y mae ar y defnyddiwr terfynol / cleient ei angen.

Mewn gofal cymdeithasol, er enghraifft, mae marchnadoedd yn amodol ar gyfyngiadau

daearyddol ac mae gwasanaethau lleol yn hollbwysig. Efallai y bydd angen gofynion newydd ar fyr rybudd, ac y bydd yn bwysig ehangu capasiti yn ystod cyfnod contract yn hytrach na chyfyngu mynediad i'r farchnad. Er bod fframweithiau'n gallu bod yn llwyddiannus yn y meysydd hyn dylid ystyried lliniaru'r risgiau, a gallai system brynu ddynamig gynnig mwy o hyblygrwydd a dewis o ddarparwyr gwasanaethau i ddiwallu anghenion dinasyddion.

Yn ychwanegol at hyn, dylid ystyried yr effeithiau y gall cytundeb fframwaith mawr ei gael ar y farchnad. Mae cwmnïau bach, cyflenwyr trydydd sector a busnesau a gynorthwyr (y cyfeirir atynt yn Rheoliadau 2015 fel "*sheltered workshops*") yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac yn rhoi hwb i economi Cymru. Dylai contractau cyhoeddus fod yn agored ac yn hygyrch er mwyn sicrhau bod cwmnïau o'r fath yn gallu gwneud cais – yn ogystal ag annog ceisiadau ar y cyd a cheisiadau consortia – ac weithiau mae fframweithiau'n rhy fawr ac yn gallu bod allan o gyrraedd. Mae ffyrdd o fynd o gwmpas hyn, er enghraifft rhannu'r fframwaith yn lotiau a chynnwys Budd i'r Gymuned, a fydd yn cael ei drafod yn nes ymlaen.

Newidiadau i Wasanaethau

Mae'n werth nodi'r newidiadau i wasanaethau dan Reoliadau 2015. Mae'r gwahaniaeth blaenorol rhwng gwasanaethau Rhan A a Rhan B wedi cael ei ddileu, ac mae rheolau newydd y cyfeirir atynt fel y 'drefn lai manwl' wedi cael eu cyflwyno ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau penodol eraill sy'n tueddu i fod o lai o ddiddordeb i gystadleuaeth drawsffiniol (gweler Rheoliadau 74 i 77 ac Atodlen 3 i Reoliadau 2015).

Mae'r rhestr o wasanaethau sy'n cael eu cynnwys dan y drefn lai manwl yn cael ei diffinio drwy ddefnyddio codau Geirfa Gaffael Gyffredin (CPV). Mae'r gwasanaethau "penodol eraill" y cyfeirir atynt yn cynnwys iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a chysylltiedig, gwasanaethau cyfreithiol, gwestai a thai bwyta, gwasanaethau post, gwasanaethau diogelwch, budd-daliadau, rhai gwasanaethau gweithlu a staff asiantaeth. Gallwch weld y rhestr lawn yn Atodlen 3 i Reoliadau 2015 drwy ddilyn y ddolen isod:-

<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2015/102/schedule/3/made>

Mae'r drefn lai manwl yn cynnig llawer o hyblygrwydd i awdurdodau contractio ac yn eu galluogi i drefnu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau fel sy'n gweddu orau i'w hanghenion. Bydd hyn o fudd mawr, yn enwedig wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol, a bydd yn helpu i gefnogi comisiynu strategol. Mae'r Comisiwn wedi cydnabod pwysigrwydd cyddestun diwylliannol a sensitifrwydd yn y maes hwn, ac mae'r drefn lai manwl yn cynnig gwell ffocws a mwy o hyblygrwydd wrth ddiwallu anghenion defnyddwyr terfynol. Bydd hyn yn helpu i wella ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

Mae Rheoliadau 2015 yn darparu manylion gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn ar gyfer y gwasanaethau hyn, gan gynnwys rhoi hysbysebion contractau a hysbysiadau dyfarnu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (Rheoliad 75 yn Rheoliadau 2015), cydymffurfio ag egwyddorion tryloywder a thriniaeth gyfartal y Cytuniad a sicrhau bod terfynau amser yn rhesymol (Rheoliad 76 yn Rheoliadau 2015).

Mae rhagor o wybodaeth am y drefn lai manwl i'w gweld yn:-

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/469057/LTR_guidance_v28_updated_October_2015_to_publish_1_.pdf

Ystyriaethau i Brynwyr / Cyflenwyr

Mae ychydig o ystyriaethau ar ochr y galw / prynwr ac ar yr ochr gyflenwi a ddylai helpu i hwyluso'r penderfyniad a yw cytundeb fframwaith yn briodol ar gyfer y caffaeliad dan sylw. Amlinellir y rhain isod.

OCHR Y GALW / PRYNU	YR OCHR GYFLENWI
Strategaeth a Llinell Sylfaen	
Gwnewch yn siŵr bod y cytundeb fframwaith rydych yn ei ystyried yn gyson â strategaeth gaffael eich awdurdod contractio	A fyddai'n well cael system brynu ddynamig yn hytrach na fframwaith gan ei bod yn fwy agored a hyblyg?
Os ydych yn ystyried fframwaith cydweithredol, gwnewch yn siŵr bod gan eich awdurdod y gallu cyfreithiol i ddyfarnu fframweithiau i'w defnyddio gan gyrrff cyhoeddus eraill.	A all Busnes Cymru helpu i adnabod cyflenwyr addas a chefnogi cydweithrediad ar yr ochr gyflenwi, er enghraifft gwneud ceisiadau ar y cyd?
A oes rhywfaint o sicrwydd ynglŷn â chyllid a hefyd ynglŷn â'r rhaglen waith (neu'r nwyddau a'r gwasanaethau) y disgwylir i'r fframwaith gyflawni mewn cysylltiad â hwy?	Mae'n cymryd amser, ac mae'n gostus, i gyflenwyr adolygu dogfennau tendro er mwyn penderfynu a ydynt am wneud cais A pharatoi eu cais, os ydynt yn penderfynu gwneud cais. Rhowch gymaint ag y gallwch o wybodaeth a sicrwydd ynglŷn â beth yw eich gofynion.
A allai'r fframwaith gael ei gadw ar gyfer busnesau a gynorthwyr neu gwmnïau â chenhadaeth gymdeithasol?	Ystyriwch y farchnad – a oes digon o fusnesau a gynorthwyr a chwmnïau cymdeithasol allan yna i fodloni'r gofynion?
A oes fframweithiau yn bodoli'n barod sy'n gydnaws ag egwyddorion DPCC y gellid eu defnyddio, er enghraifft y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) neu fframweithiau sectoraidd?	A oes cyflenwyr addas allan yna – edrychwch ar y rhai sydd wedi cofrestru ar GwerthwchiGymru ac yng Nghyfeiriadur Busnesau Cymru.
Cwmpas	
A yw'n hawdd dod o hyd i ddata am ddefnyddwyr / gwariant / galw? A ellir safoni / symleiddio manylebau / gofynion ynteu a ydynt yn rhy amrywiol?	Faint o sgôp sydd yna yn y farchnad i sicrhau arbedion maint? A ydych yn ymwneud â marchnad leol, genedlaethol neu ryngwladol?
Beth yw natur y caffael – a fyddai'n bosibl ei rannu'n lotiau? P'un ai fframwaith un cyflenwr ynteu fframwaith aml-gyflenwr fyddai orau?	Sut farchnad yw hi a pha mor gystadleuol yw hi? A yw'n bosibl y byddai rhai cyflenwyr wedi'u gwahardd o'r fframwaith?
AMSERLEN A HYD	
A oes digon o amser i wneud yr astudiaeth gwmpasu a dichonoldeb briodol sydd ei hangen ar gyfer fframwaith cydweithredol?	A yw'r farchnad / technoleg yn newid yn gyflym? Pa mor anwadal yw prisiau – a yw'n bosibl y byddai contract byrrach yn cynnig gwell gwerth am arian?

A yw pedair blynedd (uchafswm hyd fframweithiau) yn ddigon hir i gyflenwyr wneud elw ar fuddsoddiad? Os nad yw, ystyriwch gontract tymor hwy.	A oes angen buddsoddiad gan gyflenwyr ar gyfer y gofyniad hwn? Os oes, contract o ba hyd fyddai'n caniatáu iddynt wneud elw ar y buddsoddiad hwnnw?
RHEOLAETH AC ADNODDAU	
A fyddai mwy o gymhlethdod / amser wrth osod a rheoli fframwaith yn negyddu'r manteision a gafwyd?	Beth yw'r capasiti yn y farchnad ar gyfer ymarferion caffael aml? A yw cyflenwyr yn gyfarwydd â fframweithiau?
A oes digon o adnoddau i sicrhau rheolwr fframwaith ymroddedig a dull effeithiol o reoli contract?	A fydd y cyflenwr yn gallu cynnig rheolwr cyfrif / fframwaith ymroddedig a'r gweithdrefnau uwchgyfeirio priodol?

Mae rhai o'r agweddau hyn yn cael eu harchwilio'n fanylach isod.

Strategaeth Gaffael

Argymhellir y dylai pob awdurdod contractio yng Nghymru gael strategaeth gaffael gyffredinol, yn nodi sut mae eu caffael yn cael ei drefnu er mwyn gweithredu eu polisiau a'u hamcanion. Dylai adlewyrchu unrhyw bolisiau caffael perthnasol gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft DPCC, sy'n sail i gaffael cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd angen cadw'r strategaeth gaffael mewn cof wrth ystyried sefydlu cytundeb fframwaith er mwyn sicrhau bod unrhyw weithgaredd caffael yn cael ei gynnal yn unol â'r strategaeth ac y bydd yn adlewyrchu ei hamcanion polisi a'i hymrwymiaadau.

Systemau Prynu Dynamig

Fel dewis arall yn lle gosod cytundeb fframwaith, gellid ystyried system brynu ddynamig. Mae system brynu ddynamig yn weithdrefn sydd ar gael ar gyfer contractau am nwyddau, gwaith a gwasanaethau a ddefnyddir yn aml sydd ar gael yn gyffredinol ar y farchnad. Mae'n debyg i gytundeb fframwaith mewn sawl ffordd, ond un gwahaniaeth pwysig yw nad yw'n cau cyflenwyr allan, a gall cyflenwyr newydd ymuno unrhyw bryd, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dewis. Gallai system brynu ddynamig fod yn fwy addas i gontractau gofal cymdeithasol na fframwaith gan y byddai ystod ehangach o bosibl o ddarparwyr yn arwain at fwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion dinasyddion.

Gall awdurdodau contractio, gan gynnwys cyrff prynu canolog, sefydlu system brynu ddynamig. Dylai'r system brynu ddynamig gael ei sefydlu ar gyfer mathau penodol o ofynion, y gellir eu rhannu'n categorïau o gynnyrch, gwaith neu wasanaethau.

Mae gan system brynu ddynamig ei set ei hun o reolau, sy'n cael eu hamlinellu yn Rheoliad 34 o Reoliadau 2015. Rhaid iddi gael ei rhedeg fel proses gwbl electronig a dylai gael ei sefydlu gan ddefnyddio'r weithdrefn gyfyngedig.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am system brynu ddynamig drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod sy'n arwain at Ganllawiau Gwasanaethau Masnachol y Goron:-

Contractau neilltuol

Yn ystod y cam cynllunio, dylai awdurdodau contractio ystyried a yw'r cytundeb fframwaith yn addas i gael ei 'neilltuo' ar gyfer busnesau a gynorthwyr neu gwmnïau â chenhadaeth gymdeithasol. Mae cyflenwyr trydydd sector o'r fath yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, felly mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn nodi bod yn rhaid ystyried hyn.

Mae Rheoliadau 2015 yn cynnwys cyfleoedd newydd i neilltuo contractau dan Reoliadau 20 a 77, i helpu i gyflawni amcanion cymdeithasol a chymunedol.

- Mae Rheoliad 20 yn caniatáu i awdurdodau contractio neilltuo'r hawl i gymryd rhan mewn gweithdrefnau caffael i fusnesau a gynorthwyr a chyflenwyr sy'n datgan mai eu prif nod yw integreiddio pobl anabl a/neu bobl sydd dan anfantais yn gymdeithasol ac yn broffesiynol, cyn belled bod o leiaf 30% o weithwyr y gweithdy yn anabl neu dan anfantais. Os defnyddir yr opsiwn hwn bydd angen i hysbysiad y contract gyfeirio at Erthygl 20 o'r Gyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus.
- Yn ychwanegol at hyn, mae Rheoliad 77 yn caniatáu i awdurdodau contractio neilltuo contractau ar gyfer rhai gwasanaethau iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol a diwylliannol i sefydliadau ar y sail eu bod yn eiddo i'r gweithwyr neu bod y gweithwyr yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o'u rheoli. Os defnyddir yr opsiwn hwn, yna bydd angen i'r cais am gystadleuaeth nodi hynny'n glir.

Rhaid i sefydliad fodloni meini prawf penodol i fod yn gymwys ar gyfer Rheoliad 77, gan gynnwys y canlynol:-

- Ei amcan yw cyflawni cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau sy'n dod dan y codau CPV;
- Mae elw'n cael ei ailfuddsoddi gyda'r bwriad o gyflawni amcan y sefydliad, a dosberthir yr elw ar sail ystyriaethau cyfranogol;
- Mae perchnogaeth y sefydliad yn seiliedig ar berchnogaeth gan y gweithwyr/egwyddorion cyfranogol neu mae angen i'r gweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth neu randdeiliaid fod yn chwarae rhan weithredol; ac
- Nid oes contract ar gyfer y gwasanaethau dan sylw wedi cael ei neilltuo i'r sefydliad gan yr awdurdod contractio hwn yn y tair blynedd flaenorol.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am gontractau neilltuol yn y Canllaw Cynllunio Caffael. <http://prp.gov.wales/toolkit/?skip=1&lang=cy>

Pwy all sefydlu cytundebau fframwaith cydweithredol?

Gall awdurdodau contractio sefydlu a hysbysebu cytundebau fframwaith ar ran awdurdodau

contractio eraill. Mae hyn yn gyffredin iawn yn achos awdurdodau contractio sy'n gweithredu fel Cyrff Prynu Canolog (gweler isod).

Cyn arwain fframwaith cydweithredol a fydd yn agored i gyrff sector cyhoeddus eraill, dylai'r awdurdod contractio fodloni ei hun bod ganddo'r pwerau sy'n ofynnol dan y gyfraith i wneud hynny a dylai ofyn am gyngor gan ei Adran Gyfreithiol.

Cyrff Prynu Canolog

Gall awdurdodau contractio brynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau drwy Gyrff Prynu Canolog, sy'n cael eu diffinio yn Rheoliad 2 yn Rheoliadau 2015 fel a ganlyn:-

“a contracting authority which provides centralised purchasing activities and which may also provide ancillary purchasing activities.”

Gall Cyrff Prynu Canolog weithredu fel 'cyfanwerthwr' sy'n cyflenwi i awdurdod ar sail contractau y mae wedi eu dyfarnu ei hun a / neu ddarparu mynediad i awdurdodau contractio i gytundebau fframwaith neu systemau prynu dynamig y mae wedi eu sefydlu.

Os yw Corff Prynu Canolog wedi dyfarnu cytundeb fframwaith yn unol â Rheoliadau 2015, gall awdurdodau contractio eraill ddefnyddio'r fframwaith yn ôl y gofyn cyn belled eu bod wedi cael eu henwi yn y cais am gystadleuaeth neu'r gwahoddiad i gadarnhau diddordeb. Rhaid i'r dogfennau caffael gynnwys enw pob awdurdod contract sydd â hawl i gaffael yn ôl y gofyn dan delerau'r cytundeb fframwaith. Mae'r awdurdod contractio sy'n defnyddio'r fframwaith yn gyfrifol am ddyfarnu cytundebau caffael yn ôl y gofyn mewn ffordd sy'n cydymffurfio â thelerau'r cytundeb hwnnw.

Dylid nodi bod yn rhaid i bob gweithdrefn gaffael sy'n cael ei chynnal gan Gorff Prynu Canolog gael ei chyflawni gan ddefnyddio dull cyfathrebu electronig.

Defnyddio Cytundebau Fframwaith sy'n Bodoli'n Barod

Cyn sefydlu eich fframwaith eich hun, dylech roi ystyriaeth gynnar i unrhyw gytundebau fframwaith eraill sydd yn y broses o gael eu sefydlu ac y gallech ofyn am gael eich rhestru ynddynt fel defnyddiwr. Neu, mae'n bosibl bod cytundebau fframwaith eraill sy'n bodoli'n barod y gallai eich awdurdod contractio eu defnyddio'n gyfreithlon (os yw wedi ei restru fel defnyddiwr). Os yw'r gofyniad ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith sy'n cael eu prynu'n gyffredin, mae'n bosibl y bydd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) gytundeb fframwaith yn barod sy'n agored i'w ddefnyddio gan yr awdurdodau contractio sydd wedi cofrestru. Mae gwefan yr NPS yn cynnwys manylion am ei gytundebau fframwaith a chontractau'r dyfodol <http://nps.gov.wales/?skip=1&lang=cy>

Os nad oes gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gytundeb fframwaith ar gyfer y nwyddau/gwasanaethau rydych eisiau eu prynu, gallech gysylltu ag ef i weld a yw'n rhywbeth y mae'n ei gynllunio ar gyfer y dyfodol neu y byddai'n ei ystyried pe bai digon o alw. Gallech hefyd:-

- Siarad â chydweithwyr mewn awdurdodau eraill i weld a ydynt yn cynllunio caffaeliadau tebyg;

- Holi'r consortiwm neu'r grŵp caffael sy'n cynrychioli eich sector i weld pa gytundebau sy'n bodoli'n barod yn y sector; a
- Holi Gwasanaethau Masnachol y Goron i weld a oes ganddynt hwy rywbeth addas y gallech ei ddefnyddio.

Os deuir o hyd i gytundebau fframwaith sy'n bodoli'n barod, dylai'r awdurdod contractio siarad gyda'r awdurdod / sefydliad arweiniol ar gyfer y cytundeb fframwaith hwnnw er mwyn sicrhau ei fod yn gallu ei ddefnyddio'n gyfreithlon i liniaru'r risg o ddefnyddio cytundeb fframwaith nad yw'n cydymffurfio. Rhai o'r prif bethau i'w hystyried fyddai cadarnhau:-

- (i) Ei fod yn bendant yn gytundeb fframwaith;
- (ii) Ei fod wedi cael ei ddyfarnu gan awdurdod contractio yn unol â'r diffiniad yn Rheoliadau 2015;
- (iii) Ei fod yn nodi bod y cytundeb fframwaith wedi cael ei sefydlu ar ei ran ei hun a/neu ar ran awdurdodau contractio eraill;
- (iv) Ei fod yn nodi darpar ddefnyddwyr y fframwaith yn glir ac yn cynnwys y sectorau a'r rhanbarthau priodol a chwmpas y nwyddau / gwasanaethau sydd eu hangen; a
- (v) Nad yw cyfanswm gwerth contractau yn ôl y gofyn sydd wedi mynd drwy'r fframwaith hyd yn hyn yn fwy na gwerth amcangyfrifedig y cytundeb fframwaith.

Cymharu Cytundebau sy'n Bodoli'n Barod

Mae'n bosibl bod nifer o gytundebau fframwaith sy'n bodoli'n barod y gall awdurdod contractio eu defnyddio'n gyfreithlon (os er enghraifft, yw wedi ei restru fel defnyddiwr mewn mwy nag un cytundeb). Er ei bod yn ddoeth ystyried pob fframwaith sydd ar gael er mwyn canfod yr un gorau ar gyfer eich gofynion chi, ni ddylech wneud cymhariaeth uniongyrchol o gynigion o fwy nag un cytundeb fframwaith (hynny yw, drwy gynnal mini-gystadlaethau dan ddau fframwaith gwahanol a dewis cyflenwr wedyn drwy gymharu'r cynnig gorau gan bob un).

Y rheswm am hyn yw bod mini-gystadlaethau'n cael eu cynnal ar sail y telerau a sefydlwyd yn y fframwaith gwreiddiol, ac mae unrhyw ymgais i gymharu ceisiadau rhwng dau fframwaith gwahanol yn annhebygol o fod ar sail gyfatebol gan y bydd gwahanol feini prawf gwerthuso'n cael eu defnyddio. Mae'r arfer hwn yn annhebygol iawn o fod yn gydnaws â'r egwyddorion sydd yng Nghytuniad yr UE, sef tryloywder, peidio â gwahaniaethu, a thriniaeth gyfartal, felly nid yw'n cael ei argymhell.

Gofynion a Sgôp y Cytundeb

Dylai cytundeb gwirioneddol gydweithredol ystyried gofynion defnyddiwr terfynol yr awdurdodau contractio y bydd yn agored iddynt. Mae'n debyg y bydd y rhain yn amrywio'n fawr o'r naill awdurdod contractio i'r llall, a mwy fyth o bosibl yn achos cytundebau traws-sector, a gall gymryd llawer o amser i adolygu'r rhain a gwneud synnwyr ohonynt.

Yn ddelfrydol, dylid symleiddio a safoni cynnyrch / gwasanaethau lle bynnag y bo modd er mwyn dileu dyblygu, dod â'r galw at ei gilydd a chael gwell prisiau, gan ddiwallu anghenion y defnyddwyr terfynol. Mae'n werth sefydlu grŵp prosiect yn cynnwys rhanddeiliaid a

defnyddwyr terfynol er mwyn gwneud y dasg hon yn haws.

Mae'n bwysig bod cwmpas llawn y cytundeb a beth yn union sydd i'w gynnwys yn cael ei ystyried yn ofalus ar y dechrau un. Nid yw'n bosibl gwneud addasiadau mawr i delerau'r fframwaith ar ôl iddo gael ei ddyfarnu (Rheoliad 33(6) yn Rheoliadau 2015). Byddai ymestyn cwmpas y cytundeb i gynnwys cynnyrch neu wasanaethau newydd i bob pwrpas na chawsant eu hysbysebu'n wreiddiol yn anghyfreithlon.

Asesu'r Defnyddwyr Posibl a Gwerth Cytundeb Fframwaith

Wrth osod cytundeb fframwaith, mae angen gwneud y gwaith paratoi angenrheidiol ymlaen llaw er mwyn canfod y galw, y gwerth tebygol, y defnyddwyr tebygol a'u gofynion (yn enwedig â fframweithiau cydweithredol cymhleth).

Yn unol â Rheoliadau 2015, cyn y gall awdurdod contractio gymryd rhan mewn cytundeb fframwaith sy'n cael ei osod gan awdurdod contractio arall, mae angen iddo fod wedi cael ei enwi'n glir yn y cais am gystadleuaeth, hynny yw hysbysiad contract neu wahoddiad i gadarnhau diddordeb (Rheoliad 33(5) yn Rheoliadau 2015). Mae'r Comisiwn wedi datgan yn glir mai'r hysbysiad contract yw'r prif ddull o sicrhau tryloywder ac, o ganlyniad, gan nad yw termau amwys fel "unrhyw awdurdod contractio" neu "bob corff cyhoeddus yng Nghymru" yn ddigon tryloyw, nid ydynt yn dderbyniol.

Y prif amcan yw sicrhau bod cyflenwyr o unrhyw Aelod-wladwriaeth yn gallu gweld yn glir pwy all gael eu hystyried fel defnyddwyr y fframwaith. Dylent gael eu nodi drwy enw, neu drwy ddulliau eraill sy'n golygu ei bod yn hawdd eu hadnabod. Os yw'n bosibl, dylid darparu dolen gyswllt sy'n arwain at restr o awdurdodau contractio perthnasol. Fodd bynnag, gellir nodi defnyddwyr posibl fframwaith drwy gyfeirio at ddsbarth penodol o awdurdodau contractio mewn rhanbarth wedi'i ddiffinio y gellir ei nodi ar y rhyngwyd, er enghraifft awdurdodau contractio sydd wedi cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fel y maent wedi'u rhestru yn <http://nps.gov.wales/about-us/customer-member-organisations?skip=1&lang=cy>

Os yw awdurdod contractio'n arwain cytundeb fframwaith cydweithredol, gyda'r bwriad o'i wneud yn agored i'w ddefnyddio gan awdurdodau contractio eraill, mae angen gwneud y gwaith paratoi angenrheidiol er mwyn lleihau'r risg o her. Dylid cynnal astudiaeth gwmpasu a dichonoldeb fanwl er mwyn asesu'r galw, sicrhau ymrwymiad gan yr awdurdodau contractio hynny sy'n dymuno defnyddio'r cytundeb a chanfod faint y maent yn debygol o'i wario.

Wrth asesu cyfanswm gwerth y fframwaith, mae'n bwysig bod yr amcangyfrif yn cynnwys yr holl gontractau yn ôl y gofyn posibl dros gyfnod y cytundeb a allai gael eu gwneud gan yr holl awdurdodau contractio sydd â hawl i ddefnyddio'r fframwaith, nid yn unig y contractau yn ôl y gofyn y bwriadwyd eu gwneud gan yr awdurdod contractio sy'n arwain y cytundeb fframwaith. Yn dilyn hynny, dylid cynnwys amcangyfrif o niferoedd a gwerth y busnes yn seiliedig ar ymatebion i'r astudiaeth gwmpasu a dichonoldeb yn y dogfennau tendr, ynghyd â rhestr o'r awdurdodau contractio sydd wedi ymrwymo i gymryd rhan.

Dylid gwneud pob ymdrech resymol i ddarparu cymaint ag sy'n bosibl o wybodaeth ymlaen llaw i'r cyflenwyr – mae agwedd agored, tryloywder, triniaeth gyfartal a chymesuredde yn hollbwysig. Dylid monitro gwariant drwy'r cytundeb fframwaith drwy gydol y cyfnod y mae'n

weithredol ac ni ddylai'r gwerth fod yn fwy na'r hyn a nodwyd yn yr hysbysiad contract neu'r gwahoddiad i dendro.

Darllenwch yr adran am 'Hysbysebu'r Fframwaith' i gael cyngor ynglŷn â beth i'w gynnwys yn yr hysbysiad contract mewn cysylltiad â gwerth a defnyddwyr.

Fframweithiau Cyflenwr Unigol neu Aml-gyflenwr

Yr awdurdod contractio fydd yn penderfynu pa fath o gytundeb i'w sefydlu, a bydd hynny'n dibynnu ar y math o nwyddau / gwasanaethau sy'n cael eu prynu ac ar natur y farchnad.

Mae angen ystyried a ddylid dyfarnu fframwaith cyflenwr unigol ynteu fframwaith aml-gyflenwr yn gynnar yn y broses, cyn cyhoeddi'r gwahoddiad i dendro, a dylid egluro'n glir yn y tendr sut mae'r awdurdod contractio'n bwriadu i'r cytundeb fframwaith weithio.

Mae rhai o fanteision ac anfanteision posibl fframweithiau cyflenwr unigol a fframweithiau aml-gyflenwr i'w gweld isod.

Fframweithiau Cyflenwr Unigol

Mae fframwaith cyflenwr unigol, fel mae'r enw'n awgrymu, yn gytundeb gydag un cyflenwr i ddarparu nwyddau, gwaith a/neu wasanaethau penodol. Bydd contractau yn ôl y gofyn yn cael eu dyfarnu o fewn y terfynau ar sail y telerau a'r amodau a bennwyd yn y cytundeb fframwaith.

Mae fframweithiau cyflenwr unigol yn tueddu i fod yn addas ar gyfer nwyddau cyffredinol, syml fel deunydd ysgrifennu, papur a nwyddau traul cyfrifiadurol, lle mae elfen o safoni a lle mae'n gymharol hawdd canfod union brisiau a thelerau o flaen llaw.

Manteision	Anfanteision
Mwy o sgôp i safoni manylebau a gofynion	Gallai defnyddwyr terfynol gael yr argraff nad oes digon o ddewis
Llai o waith rheoli contract – dim ond un cyflenwr i ganolbwyntio arno ar gyfer pob maes cynnyrch a mwy o botensial i ddatblygu perthynas gyda chyflenwr	Gallai'r posibilrwydd o fynd yn or-ddibynnol ar un cyflenwr, a'r ffaith na ellir rhannu'r risg rhwng gwahanol gyflenwyr, ystumio'r farchnad
Dim angen cynnal mini-gystadlaethau, sy'n gallu cymryd llawer o amser a bod yn drwm ar adnoddau yn aml iawn	Bydd diffyg mini-gystadlaethau yn golygu nad oes elfen o gystadleuaeth barhaus i brofi prisiau'r farchnad

Fframweithiau Aml-gyflenwr

Mae fframwaith aml-gyflenwr yn gytundeb fframwaith sy'n cael ei ddyfarnu i fwy nag un cyflenwr i gyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau penodol. Gall y rhain fod yn ddefnyddiol ar gyfer contractau gwasanaeth mwy cymhleth, fel gofal cymdeithasol, adeiladu, ymgynghori a hyfforddi, lle mae'n anos canfod union brisiau a lle bydd gofynion defnyddwyr yn amrywio.

Manteision	Anfanteision
Mwy o ddewis i ddefnyddwyr terfynol o ran bodloni eu gofynion	Amwysedd posibl ymhlith defnyddwyr terfynol ynglŷn â pha gyflenwr i'w ddefnyddio a risg na fydd rhai cyflenwyr yn derbyn unrhyw fusnes
Gallu rhannu'r risg ac amharu llai ar y gwasanaeth – os bydd un cyflenwr yn methu, gellir defnyddio un o'r cyflenwyr eraill	Gall rheoli contractau nifer o gyflenwyr fod yn feichus ac mae'n anos monitro a mesur ansawdd nwyddau a/neu wasanaethau
Gellir cynnal mini-gystadlaethau rhwng cyflenwyr er mwyn sicrhau gwerth am arian	Gall mini-gystadlaethau gymryd llawer o amser a gall y broses fod yn drwm ar adnoddau

5. Sefydlu fframwaith effeithiol – pethau i'w hystyried

Po fwyaf tryloyw ac eglur yw'r cam hwn, po leiaf y risg o her gyfreithiol

Ar ôl penderfynu sefydlu cytundeb fframwaith, a phan fydd rhywfaint o sicrwydd ynglŷn â'r cyllid a'r rhaglen waith / nwyddau / gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu drwy'r fframwaith, dylid neilltuo'r amser angenrheidiol i ddilyn yr arferion gorau wrth gynllunio'r broses gaffael er mwyn sicrhau cytundeb fframwaith effeithiol.

Yn aml iawn mae llawer o elfennau i'w hystyried yn y cam cynllunio, yn enwedig wrth redeg cytundeb fframwaith cydweithredol sy'n cynnwys awdurdodau contractio eraill yng Nghymru. Mae cynllunio effeithiol a chraffter yn y camau cynnar yn allweddol er mwyn gwneud y cytundeb yn iawn a sicrhau ei lwyddiant yn y dyfodol.

Mae'r Gyfarwydddeb Unioni Cam, a ddaeth i rym, drwy Reoliadau'r DU, yn Rhagfyr 2009 yn ei gwneud hi'n haws i gyflenwyr herio, ac mae canlyniadau ymarfer caffael diffygiol yn fwy difrifol nag o'r blaen. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Gwasanaeth Gwrando ar Gyflenwyr, sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru, yn darparu mecanwaith sy'n galluogi cyflenwyr i roi gwybod am unrhyw broblemau neu bryderon sydd ganddynt mewn cysylltiad ag ymarferion caffael cyhoeddus sy'n cael eu gwneud gan awdurdodau contractio yng Nghymru. Mae dolen gyswllt sy'n arwain at y Gwasanaeth Gwrando ar Gyflenwyr i'w gweld

isod:- <http://llyw.cymru/topics/improvingservices/bettervfm/supplier-feedback-service/?skip=1&lang=cy>

Felly mae'n bwysicach nag erioed bod ymarferion caffael yn briodol, yn deg, yn dryloyw ac yn gymesur. Mae angen i'r awdurdod contractio wybod yn iawn sut y mae eisiau i'r fframwaith gael ei strwythuro a sut y mae'n bwriadu iddo weithredu, ac mae angen cyfleu hynny'n glir i'r cyflenwyr.

Mae rhai o'r prif feysydd i'w hystyried wrth osod cytundeb fframwaith yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i'w gweld isod ac maent yn cael eu hamlinellu'n fanylach yn yr adrannau a ganlyn:-

- Ymgynghori â'r farchnad;
- Hyd y fframwaith;
- Prisio dan y cytundeb fframwaith;
- Strategaeth lotio;
- Is-gontractio;
- Talu'n brydlon;
- Dyletswyddau cydraddoldeb; a
- Rhwymedigaethau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

Ymgynghori â'r Farchnad

Mae'n werth ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar cyn cychwyn ymarfer caffael. Gallwn ddysgu llawer gan gyflenwyr – os ydynt yn cael cyfle, gallant ddarparu syniadau newydd ac arloesol neu gynnig dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaeth, a gall hynny fod yn ddefnyddiol wrth ystyried dulliau caffael. Mae hyn yn cael ei gadarnhau yn Natganiad Polisi Caffael Cymru dan Egwyddor 8 (Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesi).

Yn draddodiadol, mae'n bosibl bod prynwyr wedi bod yn cadw cyflenwyr hyd braich oddi wrthynt, ac wedi bod yn gyndyn i siarad gyda nhw rhag ofn iddynt gael eu cyhuddo o ddangos ffafriaeth, ond mae Rheoliadau 2015 yn annog ymgynghoriadau cychwynol â'r farchnad. Dan Reoliad 40 o Reoliadau 2015, gall awdurdodau contractio gynnal 'ymgynghoriadau â'r farchnad' gyda'r bwriad o baratoi'r caffaeliad a hysbysu cyflenwyr ynglŷn â'u cynlluniau a'u gofynion caffael. Gall awdurdodau contractio, er enghraifft, geisio neu dderbyn cyngor gan arbenigwyr annibynnol neu awdurdodau neu sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y farchnad (Rheoliad 40(2) yn Rheoliadau 2015). Gellir defnyddio cyngor o'r fath wrth gynllunio a chynnal y weithdrefn gaffael cyn belled nad yw'n ystumio cystadleuaeth, a chyn belled nad yw'n gwahaniaethu a'i fod yn dryloyw (Rheoliad 40(3) yn Rheoliadau 2015).

Hyd y Fframwaith

Mae Rheoliadau 2015 yn nodi na ddylai cytundeb fframwaith bara am fwy na phedair blynedd, 'ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol', gan ddibynnu ar bwnc y fframwaith (Rheoliad 33(3) yn Rheoliadau 2015). Mae amgylchiadau o'r fath yn debygol o gynnwys sefyllfaoedd lle mae cyflenwyr yn buddsoddi'n sylweddol yn y contract ac, o ganlyniad, angen rhagor o amser i adennill eu costau. Dylech felly ofyn am gyngor cyfreithiol os ydych yn bwriadu gwneud cytundeb fframwaith sy'n para am fwy o amser. Mae hefyd yn werth

ystyried, sut bynnag, ai cytundeb fframwaith yw'r cyfrwng gorau o reidrwydd ar gyfer prosiect tymor hwy.

Gall cytundebau fframwaith amrywio o ran hyd o fewn cyfnod o bedair blynedd, ac nid oes rhaid i awdurdodau contractio ddefnyddio'r cyfnod o bedair blynedd fel hyd safonol eu cytundebau. Mae angen ystyried yr hyd yn ofalus, gan gofio pa fath o nwyddau, gwaith neu wasanaethau sy'n cael eu prynu, y sail gyflenwi / marchnad ac anwadalrwydd prisiau.

Pan fydd fframwaith wedi cael ei ddyfarnu, bydd cyflenwyr nad ydynt yn rhan o'r fframwaith wedi eu cau allan o'r fframwaith am y cyfnod cyfan. Yn aml iawn, gall hyn fod yn niweidiol i gyflenwyr cynhenid bach ac i fusnesau newydd a allai fod wedi colli'r cyfle i wneud cais am y gwaith neu a fu'n aflwyddiannus.

Bydd sefydlu cytundebau fframwaith tymor byr yn golygu bod y gofynion yn mynd allan i gystadleuaeth yn amlach, fel bod cyflenwyr yn cael cyfle i wneud cais eto. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng hyn a'r ffaith y byddai hyn yn arwain at ragor o waith i brynwyr a chyflenwyr sy'n gorfod mynd drwy'r broses dendro'n amlach. Yn lle hynny, gellir ystyried sefydlu system brynu ddynamig sy'n system fwy hygrych (mae rhagor o fanylion i'w gweld yn adran 3).

Prisio dan y Cytundeb Fframwaith

Mae penderfynu sut i ymdrin â phrisio dan gytundeb fframwaith yn agwedd bwysig. Anogir costio oes gyfan lle bo modd er mwyn ystyried yr effaith hirdymor, ac mae hyn yn cael ei hyrwyddo yn DPCC (gweler Egwyddor 3). Bydd y dull gweithredu'n dibynnu i raddau helaeth ar y math o nwyddau, gwaith neu wasanaethau sy'n cael eu prynu ac ar natur y farchnad / diwydiant penodol.

Ar gyfer nwyddau a gwasanaethau cyffredinol, fel arfer mae'n bosibl nodi'r gofynion yn glir ymlaen llaw a sefydlu prisiau sefydlog ar gyfer cyfnod penodol, gan gytuno hefyd ar ddisgownt maint neu ddisgownt catalog lle bo modd.

Ar gyfer gwasanaethau eraill mwy cymhleth, fel y rhai sy'n dod dan y drefn lai manwl, (sy'n cael eu rhestru yn Atodlen 3 i Reoliadau 2015), mae'n bosibl y bydd yn anodd sefydlu union brisiau ymlaen llaw oherwydd y gymysgedd amrywiol o wasanaethau / arbenigedd dan sylw a natur amrywiol gofynion y defnyddiwr terfynol. Yn y sefyllfa hon, byddai telerau ac amodau'r fframwaith yn berthnasol i bob contract yn ôl y gofyn sy'n cael ei wneud dan y fframwaith. Argymhellir bod strwythur / mecanwaith prisio clir yn cael ei sefydlu, a'i fod yn cael ei gymhwyso wrth brisio gofynion penodol yn ystod cyfnod y fframwaith. Amlinellir isod un dull gweithredu sy'n cael ei awgrymu:-

- Rhestru'r ystod lawn o wasanaethau sydd eu hangen dan y fframwaith a sefydlu cyfradd yr awr neu'r dydd lle bo'n berthnasol; a/neu
- Sefydlu matrices prisio eang yn dangos y gwasanaethau sydd eu hangen ac ystod o brisiau gan ddiwynnu ar lefelau / arbenigedd y staff neu osod uchafswm prisiau;

Mae'n bosibl nad yw gosod prisiau'n ymarferol i rai prosiectau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn yr achos hwn, argymhellir bod proses ddewis drylwyr yn cael ei chynnal ar sail capasiti technegol a sefyllfa ariannol darparwr, ynghyd â phrofiad yn y gorffennol a hanes blaenorol. Dylai tendrau gael eu gwerthuso ar sail y meini prawf dyfarnu a dylai elfennau ansawdd y

tendr a'r cyflenwyr gael eu sgorio yn unol â hynny. Byddai'r cyflenwyr llwyddiannus (a fyddai'n cael eu dewis yn ôl y meini prawf a gyhoeddir ymlaen llaw) yn cael cynnig lle ar y fframwaith fel y bo'n briodol. Yna byddai awdurdodau contractio'n cynnal mini-gystadlaethau dan delerau'r fframwaith, gan amlinellu eu hunion ofynion er mwyn canfod y darparwr sy'n cynnig y gwerth gorau am arian.

Er bod prisiau sefydlog tymor hwy yn gallu darparu sefydlogrwydd a thawelwch meddwl, os yw'r prisiau yn y farchnad neu'r diwydiant penodol hwnnw'n anwadal ac yn gostwng yn ystod y cyfnod hwnnw, gallai awdurdodau contractio ganfod eu hunain yn talu mwy na gwerth y farchnad am y nwyddau, gwasanaethau neu waith. Un ffordd o gwmpas hyn yw cynnwys cymal yn y cytundeb fframwaith yn nodi er bod prisiau sefydlog yn bodoli y disgwylir y bydd unrhyw ostyngiad mewn pris yn y diwydiant yn cael ei gymhwyso i'r fframwaith ar unwaith yn awtomatig.

Dylid ystyried am faint o amser y bydd prisiau'n sefydlog a pha fformiwla fydd yn cael ei defnyddio ar ôl hynny ar gyfer unrhyw amrywiadau i'r prisiau. Mae angen rhyw fath o reolaeth – fel arall, gellid dadlau, er tegwch, y dylai'r gofyniad fod yn agored i gystadleuaeth newydd pan fydd prisiau'n newid. Dylid sefydlu fformiwla brisio er mwyn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gynnig a bod tryloywder ac eglurder ynglŷn â phrisiau ymlaen llaw. Yn aml iawn, yn y cam tendro mae'n werth gofyn am fanylion prisiau cyflenwyr ym meysydd allweddol trafniadaeth, gorbenion, deunyddiau, llafur ac elw.

Os gofynnir am yr wybodaeth hon ymlaen llaw, gellir gofyn i gyflenwyr gyfiawnhau unrhyw geisiadau yn y dyfodol i godi prisiau ar sail y meini prawf hyn drwy ddarparu tystiolaeth i ddangos ym mha feysydd mae'r cynnydd wedi digwydd. Gellid cymharu'r rhain wedyn â'r mynegai diwydiant perthnasol, y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) neu ddata eraill gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i wirio hawliadau'r cyflenwyr.

Strategaeth Lotio

Mae fframweithiau cydweithredol yn dod â'r galw at ei gilydd, ond nid o reidrwydd y cyflenwad.

Mae llawer o drafod wedi bod ynglŷn â'r effaith y mae cydweithredu a chytundebau fframwaith mawr yn ei gael ar fusnesau bach a chanolig (BBaCh), gan gynnwys cyflenwyr cynhenid bach, cwmnïau'r trydydd sector a busnesau a gynorthwyr.

Mae'r diffiniad o BBaCh sydd yn erthygl 2 o'r Atodiad i Reoliad 2003/361/EC i'w weld isod:

“Mae'r categori busnesau micro, bach a chanolig (BBaCh) yn cynnwys busnesau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol heb fod yn fwy na 50 miliwn ewro, a/neu gyfanswm mantolen flynyddol heb fod yn fwy na 43 miliwn ewro.”

Un o'r ffactorau sy'n sbarduno diwygiadau caffael yn Ewrop, y Deyrnas Unedig a Chymru yw'r syniad o hwyluso mynediad at gontractau cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig.

Weithiau mae hyn yn cael ei weld fel pe bai'n gwrthdaro â'r symud tuag at fwy o gydweithredu yn y sector cyhoeddus yn ddiweddar, gyda'r bwriad o ddod â gofynion at ei gilydd er mwyn cael gwell gwerth am arian.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, yng nghanam cynllunio'r broses o osod cytundeb fframwaith, bydd angen i awdurdodau contractio ystyried beth yw'r ffordd orau o strwythuro'r tendr er mwyn sicrhau bod cyflenwyr bach, cwmnïau'r trydydd sector, busnesau a gynorthwyr ac unrhyw gonsortia posibl yn cael cyfle teg i gystadlu. Mae'r angen hwn i sicrhau cystadleuaeth agored, hygyrch yn un o ofynion Datganiad Polisi Caffael Cymru, ac anogir y sector cyhoeddus yng Nghymru i ddefnyddio strategaethau lotio priodol.

Tynnir sylw at yr angen i wneud caffael yn broses hwylus i fusnesau bach a chanolig hefyd yng Nghroniciad 78 o'r Gyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus (2014/24/EU) sy'n datgan y dylai caffael cyhoeddus gael ei addasu i anghenion busnesau bach a chanolig ac y dylid annog awdurdodau contractio i ddefnyddio'r Cod Ymarfer Gorau a amlinellwyd yn Nogfen Waith y Comisiwn Staff dyddiedig 25 Mehefin 2008 dan y teitl '*European Code of Best Practices Facilitating Access by SMEs to Public Procurement Contracts*', sy'n darparu arweiniad ynglŷn â sut y gallant gymhwyso'r fframwaith caffael cyhoeddus mewn ffordd sy'n ei gwneud hi'n haws i fusnesau bach a chanolig gymryd rhan:-

http://ec.europa.eu/internal_market/publicprocurement/docs/sme_code_of_best_practices_en.pdf

Gellir rhannu fframweithiau yn lotiau, yn ddaearyddol neu yn ôl math o gynnyrch / gwasanaeth, ond bydd hyn yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei brynu a natur y farchnad / gwasgariad daearyddol, er enghraifft efallai y byddai un cyflenwr yn gallu gwasanaethu safleoedd yng ngogledd Cymru, ond nid yn y de. Dyma lle mae gwybodaeth am y sail gyflenwi yn bwysig a beth yw'r ffordd orau o gyfateb hyn â defnyddwyr y cytundeb fframwaith a'u gofynion.

Fel rhan o'ch dadansoddiad o'r farchnad, efallai y byddai'n werth i chi edrych yng Nghyfeiriadur Busnesau Cymru, sy'n cael ei gynhyrchu gan Busnes Cymru - <https://businesswales.gov.wales/business-directory/cy>

Mae Rheoliadau 2015 (Rheoliad 46) yn cynnwys darpariaethau lotio newydd a gwell. Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno dull gweithredu 'mabwysiadu neu gyfiawnhau', felly os yw awdurdodau contractio'n penderfynu peidio â rhannu fframwaith yn lotiau, rhaid iddynt roi rhesymau dros beidio â gwneud hynny yn y tendr neu'r adroddiad caffael (Rheoliad 46(2) yn Rheoliadau 2015).

Caiff awdurdodau contractio benderfynu ynglŷn â maint a phynciau'r lotiau, ac mae mwy o hyblygrwydd ynglŷn â hyn nawr. Os yw'r fframwaith wedi'i rannu'n lotiau:-

- Rhaid i'r awdurdod contractio nodi a ellir cyflwyno tendrau ar gyfer un lot, nifer o lotiau neu'r lotiau i gyd; a
- Gall yr awdurdod contractio gyfyngu ar nifer y lotiau fydd yn cael eu dyfarnu i un cwmni sy'n tendro.

Dylai awdurdodau contractio nodi yn y dogfennau caffael y meini prawf neu'r rheolau gwrthrychol a gwrth-wahaniaethol y maent yn bwriadu eu defnyddio wrth benderfynu pa

lotiau fydd yn cael eu dyfarnu lle byddai cymhwyso'r meini prawf dyfarnu'n golygu bod un cwmni sy'n tendro yn cael mwy o lotiau na'r uchafswm (Rheoliad 46(5) yn Rheoliadau 2015).

Os bydd yr awdurdod contractio'n penderfynu y gellir dyfarnu mwy nag un lot i'r un cwmni sy'n tendro, gall ddyfarnu'r fframwaith gan gyfuno nifer o lotiau neu'r lotiau i gyd, cyn belled ei fod wedi nodi yn yr hysbysiad contract neu yn y gwahoddiad i gadarnhau diddordeb ei fod yn cadw'r posibilrwydd o wneud hynny, a nodi'r lotiau neu'r grwpiau o lotiau y gellir eu cyfuno (Rheoliad 46(6) yn Rheoliadau 2015).

Is-gontractio

Mae Rheoliadau 2015 yn annog is-gontractio, ac mae darpariaethau newydd i gefnogi hyn. Gall awdurdodau contractio ofyn i'r sawl sy'n tendro nodi yn ei dendr unrhyw gyfran o'r contract y mae'n bwriadu ei is-gontractio i drydydd partion ac unrhyw is-gontractwyr arfaethedig (Rheoliad 71). Gellir gofyn cwestiynau hefyd ynglŷn â chynlluniau cyflenwyr i adolygu eu cadwyn gyflenwi er mwyn canfod a gwneud y gorau o gyfleoedd i is-gontractio. Gallai'r tendr hefyd ganiatáu i gyflenwyr is-gontractio gwaith i gyflenwyr eraill ar gyfer y meysydd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan y prif gontractwr.

Mae hybu cyfleoedd drwy gadwyni cyflenwi a chytundebau fframwaith hefyd yn cael ei annog yn Natganiad Polisi Caffael Cymru. Anogir awdurdodau contractio i wneud y nod hwn yn glir yn eu tendrau fel bod cyflenwyr a phrif gontractwyr yn ymwybodol o'r amcanion hyn ac yn gallu dangos tystiolaeth o'u cefnogaeth os oes angen. Gellir gwneud hyn yn aml drwy gynnwys amodau cymdeithasol mewn tendrau. Mae rhagor o fanylion am ganllaw Budd i'r Gymuned Llywodraeth Cymru i'w gweld yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Mae'r Cyfleuster Hysbysiadau Contractau Prynwyr-Cyflenwyr ar <https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/> yn galluogi'r prif gontractwyr i hysbysebu cyfleoedd is-gontractio yn eang – anogir awdurdodau contractio i hybu defnydd o'r cyfleuster hwn ymhlith eu cyflenwyr lle bydd yn arwain at y posibilrwydd o ddifrodi cadwyni cyflenwi lleol sydd wedi cael eu sefydlu. Yn ychwanegol at hyn, mae canllaw Budd i'r Gymuned Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau contractio i gynnwys cymalau cymdeithasol mewn tendrau er mwyn sicrhau budd i'r gymuned ehangach.

Talu'n Brydlon

Mae taliad buan i gyflenwyr yn hollbwysig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, nid yn unig gan awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus i gyflenwyr ond hefyd gan brif gontractwyr i'w his-gontractwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod is-gontractwyr sy'n ymwneud â chyflawni contractau sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu trin yn deg ac â pharch. Un o egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru, dan Egwyddor 5, yw bod telerau talu teg yn cael eu hyrwyddo ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi, a dylai awdurdodau contractio sicrhau bod y neges hon yn cael ei chyfathrebu'n glir i bob cyflenwr yn y gadwyn gyflenwi.

Ar gyfer cytundebau fframwaith sy'n cynnwys prif gontractwyr ac is-gontractwyr, argymhellir bod amod penodol yn ymwneud â thaliad buan yn cael ei gynnwys yn y contract, a dylid nodi nifer y diwrnodau a ganiateir ar gyfer talu. Dylai hyn wedyn gael ei fonitro drwy Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) drwy gydol y cytundeb a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd adolygu contract er mwyn sicrhau cydymffurfriad. Gallai hyn fod yn

ddefnyddiol iawn ar gyfer contractau adeiladu, lle mae problemau yn ymwneud â thaliadau hwyr yn codi'n gyson.

Yn ychwanegol at hyn, argymhellir y dylid ystyried sefydlu Cyfrifon Banc Prosiectau mewn prosiectau adeiladu/seilwaith sy'n cael eu hariannu ag arian cyhoeddus, yn unol ag Egwyddor 6 yn Natganiad Polisi Caffael Cymru. Mae Cyfrif Banc Prosiectau yn gyfrif banc wedi'i glustnodi y mae taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol ac ar unwaith ohono i gontractwr arweiniol ac aelodau o'r gadwyn gyflenwi. Dylai'r dull gweithredu hwn helpu i sicrhau bod is-gontractwyr bach sy'n ymwneud â chyflawni prosiectau adeiladu cyhoeddus yn cael eu talu mewn pryd. Mae gan Gyfrif Banc Prosiectau statws ymddiriedolaeth, sy'n golygu mai dim ond i'r buddiolwyr y gellir talu'r arian sydd yn y cyfrif – y contractwr arweiniol ac aelodau o'r gadwyn gyflenwi – ac mae'n ddiogel os bydd cwmni'n mynd yn fethdalwr. Gallwch weld canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gyfrifon Banc Prosiectau yn y Canllaw Cynllunio Caffael drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon: <http://prp.gov.wales/toolkit/>

Dyletswyddau Cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswyddau penodol ar gyfer caffael sector cyhoeddus. Mae Adran 153 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau, gan roi dyletswyddau i awdurdod cyhoeddus er mwyn eu galluogi i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn well. Gall y cyfryw Rheoliadau hefyd, drwy adran 155, roi dyletswyddau penodol i gyrrff cyhoeddus mewn cysylltiad â'u swyddogaethau caffael cyhoeddus. Y rheoliadau priodol yng Nghymru yw Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru) 2011. Mae Rheoliad 18 yn y Rheoliadau hynny'n nodi y dylai awdurdodau contractio ystyried a ddylai'r meini prawf dyfarnu contract gynnwys ystyriaethau perthnasol i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Yn ychwanegol at hyn, rhaid i awdurdod contractio roi sylw dyledus i'r cwestiwn a ddylai unrhyw amodau a osodir ganddynt gynnwys ystyriaethau sy'n berthnasol i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Yn ogystal â sicrhau bod dyletswyddau Cydraddoldeb ac unrhyw ofynion gwasanaeth defnyddiwr terfynol yn cael eu hadlewyrchu yn y tendr, mae nifer o ffyrdd eraill o roi sylw i gydraddoldeb drwy gaffael ac mae'r rhain yn cael eu hamlinellu isod. Mae rhagor o wybodaeth am bolisïau ac offer caffael Llywodraeth Cymru i helpu i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus i'w gweld yn Adran 6, a gallwch ei darllen yn y Pecyn Cymorth Canllaw Cynllunio Caffael drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod <http://prp.gov.wales/toolkit/?skip=1&lang=cy>:

- Defnyddio'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd (sy'n cael ei drafod yn yr adran nesaf) yng ngham cynllunio'r broses gaffael er mwyn nodi a lliniaru risgiau cynaliadwyedd;
- Defnyddio dull gweithredu seiliedig ar risg a chymesur yng ngham dewis y broses gaffael;
- Gall mabwysiadu Budd i'r Gymuned hefyd roi sylw i faterion cydraddoldeb, gan ddarparu hyfforddiant a chyflogaeth i bobl sydd dan anfantais lle bo'n briodol;
- Hysbysebu'r gofynion yn eang drwy <https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/> er mwyn sicrhau bod cyflenwyr bach, cwmnïau'r trydydd sector a busnesau a gynorthwyir yn cael cyfle i gymryd rhan; a
- Sicrhau bod gofynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys yn y tendr lle bo'n briodol.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth a chanllawiau yn ymwneud â chydarddoldeb a chaffael drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/?skip=1&lang=cy>

Rhwymedigaethau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg

Yn 2011, pasiwyd Mesur y Gymraeg gan y Cynulliad Cenedlaethol gan gyflwyno Safonau newydd ar gyfer y Gymraeg. Mae'r Mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, drwy sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bydd angen i awdurdodau contractio ystyried eu rhwymedigaethau mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg fesul achos ar gyfer pob fframwaith / contract. Mae'r gofynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn debygol o amrywio, gan ddibynnu ar y nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu prynu. Dylent hefyd fod yn gymesur, er enghraifft byddant yn llawer mwy perthnasol i system reoli cwynion nag y byddent i gontract deunyddiau ysgrifennu. Mae canllawiau ac offer ar gael i'ch helpu i asesu cwrpas ystyriaethau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ac i'w cynnwys yn y broses gaffael lle bo'n briodol. Argymhellir bod awdurdodau contractio'n cwblhau'r Aseiad Risg Cynaliadwyedd yng ngham cynllunio'r broses gaffael ac yn defnyddio'r canllawiau 'Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus: Ystyried y Gymraeg' sydd wedi cael eu diweddarau gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i adlewyrchu Mesur y Gymraeg:-

<http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Gosod%20contractau%20gwasanaethau%20cyhoeddus.pdf>

6. Polisiâu / Offer Caffael Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd yn Adran 1, mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn hybu caffael cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'n cynnwys deg egwyddor ar gyfer caffael. Mae angen i weithgareddau caffael hefyd roi sylw i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a ddaeth i rym yn 2015. Mae'r Ddeddf yn cynnwys saith nod a phum ffordd o weithio – gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon:-

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o brif bolisiâu / offer caffael Llywodraeth Cymru y dylech eu defnyddio wrth osod cytundeb fframwaith er mwyn hybu'r arferion gorau a'ch helpu i fodloni gofynion Datganiad Polisi Caffael Cymru.

Aseiad Risg Cynaliadwyedd

Mae caffael da yn gaffael cynaliadwy a dylai gweithgaredd caffael awdurdodau contractio o ddydd i ddydd adlewyrchu hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig ers cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n canolbwyntio ar wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ofynnol i bob awdurdod contractio yng Nghymru roi sylw i'r dyletswyddau a nodwyd yn y Ddeddf, gan gynnwys wrth gyflawni eu gweithgareddau caffael.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Asesiad Risg Cynaliadwyedd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Un o ofynion Datganiad Polisi Caffael Cymru (Egwyddor 3) yw bod yr Asesiad Risg Cynaliadwyedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob proses gaffael sy'n werth mwy na £25,000, ac argymhellir bod awdurdodau contractio'n ei gwblhau yn ystod cam cynllunio'r broses gaffael. Mae'r Asesiadau Risg Cynaliadwyedd yn tynnu sylw at risgiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â'r caffaeliad a beth yw'r ffordd orau o'u lliniaru. Mae offeryn tebyg ar gael ar gyfer contractau adeiladu – templed Sicrhau Ansawdd Adeiladu.

Mae angen i awdurdodau contractio ofyn am dystiolaeth i ddangos bod cyflenwyr yn meddu ar yr arbenigedd a / neu'r sgiliau i gyflawni'r gofyniad, neu dystiolaeth eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth gymdeithasol a chynaliadwyedd berthnasol, lle bo'n briodol. Dylid nodi na chaniateir i awdurdodau contractio fynnu bod gan y rhai sy'n tendro bolisiâu cyfrifoldeb cymdeithasol neu amgylcheddol corfforaethol penodol yn gyffredinol (Cronicliad 97 o Gyfarwyddeb y Sector Cyhoeddus). Rhaid i unrhyw ofynion gael eu cysylltu â phwnc y contract.

Gallwch weld yr Asesiad Risg Cynaliadwyedd drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon: <http://prp.gov.wales/toolkit/?skip=1&lang=cy>

Budd i'r Gymuned

Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau contractio ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar Fudd i'r Gymuned ar gyfer pob gweithdrefn gaffael sector cyhoeddus, a defnyddio'r Offeryn Mesur ar gyfer pob contract o'r fath sy'n werth dros £1m. Mae'r trothwy o £1m yn cael ei nodi fel lleiafswm, felly mae'n bosibl bod cyfleoedd i gymhwyso Budd Cymdeithasol hefyd – a chwblhau/dychwelyd yr Offeryn Mesur – i gontractau sy'n llai nag £1m, felly dylid defnyddio synnwyr cyffredin ac ystyried pob contract yn unigol.

Mae Budd i'r Gymuned yn golygu cynnwys amodau cymdeithasol mewn tendrau er mwyn sicrhau bod materion economaidd-gymdeithasol ehangach yn cael eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys pethau fel hyfforddi a recriwtio pobl ddi-waith, cadw swyddi, mentrau yn y gadwyn gyflenwi a mentrau cymunedol. Gallai hefyd gynnwys agweddau addysgol, lle mae contractwyr / cyflenwyr / darparwyr gwasanaethau yn mynd i ysgolion ac yn siarad gyda'r plant am yrfaeodd a chyfleoedd yn eu diwydiant penodol hwy, neu ymweliadau ysgolion â safleoedd gweithgynhyrchu neu gynhyrchu.

Yn draddodiadol, mae Budd i'r Gymuned wedi bod yn cael ei gysylltu'n bennaf â phrosiectau adeiladu, ond mae'n cael ei ddefnyddio fwy a mwy mewn meysydd eraill megis bwyd, llaeth ysgol a mathau eraill o wasanaethau sy'n cael eu darparu.

Budd i'r Gymuned mewn Cytundebau Fframwaith Cydweithredol

Wrth ymgorffori Budd i'r Gymuned mewn cytundeb fframwaith a fydd yn agored i gyrff sector cyhoeddus eraill ei ddefnyddio, argymhellir eich bod yn sicrhau consensws ynglŷn ag amcanion y Budd i'r Gymuned.

Yn y cam cynllunio, trafodwch gyda'r rhai sydd wedi cytuno i fod yn rhan o'r cytundeb fframwaith pa fath o Fudd i'r Gymuned y byddent yn hoffi ei weld yn cael ei gynnwys, ac a ddylai'r budd fod yn greiddiol ai peidio. Wrth bennu gofynion y Budd i'r Gymuned, meddyliwch am y math o fframwaith a ble bydd y budd i'w gael – a fydd yn genedlaethol ynteu'n rhanbarthol? Yn ogystal, penderfynwch sut y bydd y budd yn cael ei fonitro, a phwy

fydd yn gyfrifol am y monitro – a fydd ar lefel fframwaith ynteu bob tro y mae contract yn ôl y gofyn yn cael ei gaffael? Bydd llawer o'r penderfyniadau hyn yn dibynnu ar natur y caffaeliad.

Yn y dogfennau caffael, cyfathrebwch ymrwymiad yr awdurdodau contractio i Fudd i'r Gymuned a sut y mae'r ymrwymiad hwnnw'n ymwneud â phwerau, dyletswyddau a pholisiau'r awdurdodau contractio. Eglurwch y sail resymegol dros geisio'r Budd i'r Gymuned, a'r canlyniadau disgwylidig, ac ystyriwch sut y bydd y canlyniadau hyn yn cael eu dosbarthu rhwng y cleientiaid / defnyddwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Canllaw Budd i'r Gymuned ar gyfer prynwyr a chyflenwyr, ynghyd ag Offeryn Mesur Budd i'r Gymuned. Gallwch weld y dogfennau hyn drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon: <http://prp.gov.wales/toolkit/?skip=1&lang=cy>

Cod Ymarfer

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2017, yn ysgogydd pwysig er mwyn gwella arferion cyflogaeth yng Nghymru. Bydd yn helpu i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, ac yn cadarnhau ein safiad wrth gaffael, hynny yw, mai'r unig fusnesau rydym eisiau delio â hwy yw busnesau moesegol a chyfrifol sy'n trin eu gweithwyr yn deg ac yn dangos parch tuag atynt. Disgwylir y bydd y Cod yn cael ei gymhwyso i bob cytundeb fframwaith priodol sy'n cael ei osod gan awdurdodau contractio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Ceisiadau ar y Cyd / Ceisiadau Consortia

Mae annog ceisiadau ar y cyd neu geisiadau gan gonsortia yn un o brif bolisiau caffael Llywodraeth Cymru, a rhoddir sylw iddo yn Egwyddor 5 yn Natganiad Polisi Caffael Cymru. Mae'n bwysig gan ei fod yn caniatáu i gyflenwyr ddod â'u hadnoddau at ei gilydd i gynyddu eu capasiti neu gwmpas cyfunol er mwyn cystadlu am gcontractau a fyddai fel arall allan o'u cyrraedd.

Dylai awdurdodau contractio ddilyn y Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cymryd camau i sicrhau (a) bod eu tendr wedi'i ysgrifennu mewn ffordd sy'n ei wneud yn agored i fentrau ar y cyd neu gonsortia; (b) ei fod yn cael ei hysbysebu'n gynnar fel bod gan gyflenwyr ddigon o amser i gydweithredu; ac (c) bod y model asesu'n cael ei ddefnyddio i nodi prosiectau addas a bod meini prawf priodol wedi'u pennu ar gyfer y broses ddewis. Gallwch weld y Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon:-

<http://llyw.cymru/topics/improvingservices/betterfm/publications/jointbidding/?skip=1&lang=cy>

Offer eGaffael

Mae eGaffael yn galluogi prynwyr a chyflenwyr i elwa o brosesau cyflymach, mwy effeithlon a thryloyw, a disgwylir i awdurdodau contractio wneud y defnydd gorau o'r offer eGaffael sydd ar gael, fel sy'n cael ei amlinellu yn Egwyddor 6 yn Natganiad Polisi Caffael Cymru.

Mae'r defnydd o systemau tendro a chaffael electronig yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu gwasanaethau e-gyrchu, e-fasnachu ac e-dalu yn ganolog, ac mae'r gwasanaethau hyn ar gael i'w defnyddio am ddim (ac eithrio unrhyw gostau integreiddio) gan sector cyhoeddus Cymru – gallwch gael rhagor o wybodaeth yn y Pecyn Cymorth Canllaw Cynllunio Caffael drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon:-

<http://prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/26568eprocurementservicetoolenglishprintfinal280916.pdf>

E-ocsiynau

Yn dilyn gwerthusiad llawn cychwynnol o'r tendrau a dderbyniwyd, gall awdurdodau contractio gynnal e-ocsiwn, sy'n eu galluogi i osod ymgeiswyr mewn trefn gan ddefnyddio dulliau gwerthuso awtomatig. Mae Rheoliad 35 yn Rheoliadau 2015 yn nodi pryd y gellir defnyddio ocsiynau electronig a phryd na ellir eu defnyddio. Rhaid i'r bwriad i gynnal e-ocsiwn fod wedi ei nodi yn yr hysbysiad contract neu yn y gwahoddiad i gadarnhau diddordeb. Mae'r opsiwn e-ocsiwn ar gael ar eDendro Cymru – gallwch weld rhagor o wybodaeth drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon:-

<http://prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/26568eprocurementservicetoolenglishprintfinal280916.pdf>

E-Gatalogau

Am y tro cyntaf, mae rheolau newydd yn Rheoliadau 2015 yn ymwneud yn benodol â defnyddio catalogau electronig (Rheoliad 36). Gall awdurdodau contractio fynnu bod tendrau ar ffurf, neu yn cynnwys, catalogau electronig, a gallant fynnu bod rhaid i'r catalogau gydymffurfio â'r fanyleb dechnegol a'r fformat a bennwyd gan yr awdurdod contractio.

Os yw cyflwyno tendrau ar ffurf e-gatalogau yn cael ei dderbyn, neu'n ofynnol, rhaid i hyn gael ei nodi yn yr hysbysiad contract neu'r gwahoddiad i gadarnhau diddordeb, a rhaid i'r dogfennau caffael roi manylion. Rhaid i'r defnydd o e-gatalogau gydymffurfio â'r gofynion e-gyfathrebu yn Rheoliad 22 yn Rheoliadau 2015.

Gellir defnyddio e-gatalogau ar gyfer rhagor o gystadlaethau mewn fframweithiau naill ai drwy wahodd catalogau wedi'u hailgyflwyno, wedi'u haddasu ar gyfer gofynion y contract dan sylw, neu drwy gasglu gwybodaeth o gatalogau a gyflwynwyd o'r blaen, cyn belled bod cyflenwyr yn cael cyfle i wrthod rhoi'r hawl i'r wybodaeth honno gael ei chasglu. Rhaid nodi bod y dull hwn o gasglu gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio yn y tendr.

Mae eFasnachu Cymru yn darparu opsiwn i holl gwsmeriaid y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) a sefydliadau penodedig yn Sector Cyhoeddus Cymru wneud archebion prynu electronig o gatalogau (enedlaethol, hynny yw NPS, a lleol, hynny yw fframwaith penodol y sefydliad sy'n prynu) ac archebion testun am ddim. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am eDendro Cymru drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon:-

<http://prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/26568eprocurementservicetoolenglishprintfinal280916.pdf>

Gellir defnyddio e-gatalogau mewn systemau prynu dynamig hefyd – mae'r canllaw ar systemau prynu dynamig i'w weld isod:-

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/417942/Guidance_on_Dynamic_Purchasing_System.pdf

Crynodeb ar ffurf Rhestr Wirio

Fel canllaw, mae'r rhestr wirio isod yn amlinellu beth mae angen ei gynnwys / ystyried wrth wahodd tendrau ar gyfer cytundeb fframwaith, a gallwch ei defnyddio i'ch helpu i gofio pethau:-

Disgrifiad	Wedi ei gynnwys? (√)
Disgrifiad clir o bwrpas / cwmpas / hyd y cytundeb	
Meini prawf dethol sylfaenol / gofynion / safonau wedi'u nodi'n glir	
Rhestr o ddefnyddwyr sydd wedi ymrwymo wedi'i darparu ynghyd ag amcangyfrif o gyfanswm gwerth a niferoedd	
Manyleb yn seiliedig ar ganlyniadau / Dangosyddion Perfformiad Allweddol / telerau ac amodau'r contract	
Syniad clir o'r lotiau (lle bo'n briodol) a'r niferoedd ym mhob lot	
Y meini prawf ar gyfer dewis a dyfarnu (ac unrhyw is feini prawf) ynghyd â manylion am y dull sgorio / pwysoliad / methodoleg	
Unrhyw farciau pasio / trothwyon a methodoleg gysylltiedig	
Eglurder ynglŷn â'r math o fframwaith – cyflenwr unigol ynteu aml-gyflenwr	
Eglurder ynglŷn â sut y bydd y cytundeb fframwaith yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod (hynny yw, dyfarnu'n uniongyrchol, mini-gystadleuaeth neu gyfuniad o'r ddau)	
Methodoleg glir ar gyfer dewis cyflenwr yn y cam caffael yn ôl y gofyn	
Manylion sy'n ofynnol ar gyfer e-ocsiwn (os yw'n briodol)	
Cynnwys prif bolisiau caffael Llywodraeth Cymru, er enghraifft gofynion Datganiad Polisi Caffael Cymru, megis cwblhau Asesiad Risg Cynaliadwyedd, cynnwys Budd i'r Gymuned, defnyddio dull SQuld, defnyddio'r Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd, ac yn y blaen.	
Ystyriaeth o ddeddfwriaeth allweddol, er enghraifft Deddf Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Mesur y Gymraeg, ac yn y blaen.	
Y telerau a'r amodau sy'n berthnasol i bob contract yn ôl y gofyn	
Prisiau / Fformiwla brisio / Trefniadau disgownt	
Grŵp rheoli contract wedi'i sefydlu er mwyn monitro dangosyddion perfformiad allweddol, a dull effeithiol o ymdrin â chyflenwyr sy'n ddiffygiol o hyd dan y cytundeb fframwaith	

7. Hysbysebu'r Cytundeb Fframwaith

Ni ddylai defnyddio'r weithdrefn agored gynyddu nifer yr holiaduron cyn-gymhwyso / ceisiadau a dderbynnir o reidrwydd, cyn belled bod y gofyniad ac unrhyw safonau sylfaenol yn glir.

Os yw gyfanswm gwerth amcangyfrifedig y cytundeb fframwaith yn debygol o fod yn fwy na throthwy perthnasol yr UE – ac os nad yw un o'r eithriadau a nodir yn Rheoliadau 7 i 12 yn Rheoliadau 2015 yn berthnasol iddo – rhaid iddo gael ei hysbysebu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) drwy <https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/> a rhaid dilyn proses gaffael yr UE.

Ni fydd pob caffaeliad i sefydlu cytundebau fframwaith yn uwch na throthwyon yr OJEU. Er

na fydd rheolau caffael yr UE yn berthnasol i fframweithiau sy'n is na throthwyon yr OJEU, bydd egwyddorion sylfaenol y Cytuniad yn dal yn berthnasol. Yn unol â hyn, mae egwyddorion y nodyn canllaw cytundebau fframwaith hwn yn cael eu hystyried yr un mor berthnasol ar gyfer caffaeliadau uwchben ac o dan drothwyon yr OJEU.

Mae gan awdurdodau contractio ddewis o weithdrefnau i'w defnyddio wrth gynnal ymarfer tendro OJEU. Fel o dan yr hen Reoliadau, mae'r gweithdrefnau agored a chyfyngedig ar gael o hyd, ond mae ychydig o newid wedi bod i'r gweithdrefnau eraill sydd ar gael ac mae un arall wedi'i ychwanegu, felly mae pump ar gael i'w defnyddio nawr:-

- Agored (Rheoliad 27); Cyfyngedig (Rheoliad 28);
- Cystadleuol â negodiadau (Rheoliad 29);
- Deialog gystadleuol (Rheoliad 30);
- Partneriaeth arloesi (Rheoliad 31).

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y newidiadau i weithdrefnau drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon:-

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/436230/guidance-on-changes-to-procedures.pdf

Anogir awdurdodau contractio i ddefnyddio'r **weithdrefn agored** gymaint ag sy'n bosibl, yn hytrach na'r gweithdrefnau eraill mwy cyfyngol, rhag cyfyngu ar y cyfleoedd i gwmnïau bach a chyflenwyr y trydydd sector. Yn ychwanegol at hyn, mae'r weithdrefn agored yn helpu i leihau amserlenni caffael cyffredinol. Mae defnyddio'r weithdrefn agored a darparu cymaint ag sy'n bosibl o wybodaeth ymlaen llaw ynglŷn â gofynion a safonau sylfaenol, yn sicrhau bod darpar gyflwynwyr ceisiadau yn deall y gofynion cyn cychwyn y broses, ac yn caniatáu i gyflenwyr anaddas dynnu'n ôl cyn gynhared ag sy'n bosibl.

Dylid nodi bod rhaid anfon pob hysbysiad, gan gynnwys Hysbysiadau Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN), Hysbysiadau Contract, Hysbysiadau Dyfarnu Contract a Hysbysiadau Addasu Contract, ond nid yn gyfyngedig i'r rhain, i'r Comisiwn yn electronig (Rheoliad 51(1)(a) yn Rheoliadau 2015). Mae cyhoeddi Hysbysiad Contract ar Gwerthwchi Gymru yn cyflawni'r gofyniad hwn gan eu bod yn cael eu hanfon yn awtomatig i'r Comisiwn i gael eu cyhoeddi. Yn ychwanegol at hyn, ni fydd yr hysbysiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar lefel genedlaethol ar broffil prynwr cyn iddynt gael eu cyhoeddi gan Swyddfa Gyhoeddiadau'r UE (gweler Rheoliad 52(3) yn Rheoliadau 2015 am ragor o wybodaeth).

Dogfennau caffael sydd ar gael yn electronig

Mae nifer o ofynion caffael electronig newydd yn Rheoliadau 2015. Un o'r rhain yw bod yn rhaid i awdurdodau contractio gynnig mynediad uniongyrchol anghyfyngedig a llawn am ddim i'r dogfennau caffael, drwy'r rhyngrwyd, o'r dyddiad y mae hysbysiad a anfonwyd yn unol â Rheol 51 yn cael ei gyhoeddi yn y Cyfnodolyn Swyddogol, neu'r dyddiad yr anfonir gwahoddiad i gadarnhau diddordeb (Rheoliad 53(1) yn Rheoliadau 2015).

Safbwynt polisi Llywodraeth Cymru yw bod hyn yn berthnasol i BOB dogfen gaffael, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i Holiadur Cyn-gymhwyso, Gwahoddiad i Dendro a thelerau ac amodau, oni bai bod un o'r eithriadau yn Rheoliad 22(3) yn berthnasol. Mae'r safbwynt polisi hwn yn seiliedig ar y diffiniad o "ddogfen gaffael" dan Rheoliad 2(1) sy'n datgan yn glir

bod “dogfen gaffael” yn cynnwys popeth yn y broses gaffael, ac ym mhob cam o'r broses. Rhoddir y diffiniad isod er gwybodaeth:–

“procurement document” means any document produced or referred to by the contracting authority to describe or determine elements of the procurement or the procedure, including the contract notice, the prior information notice where it is used as a means of calling for competition, the technical specifications, the descriptive document, proposed conditions of contract, formats for the presentation of documents by candidates and tenderers, information on generally applicable obligations and any additional documents”.

8. Y Broses Dendro

Wrth gyhoeddi'r dogfennau tendro, rhaid cadw at y graddfeydd amser sylfaenol penodol sy'n cael eu hamlinellu yn Rheoliadau 2015 ar gyfer dychwelyd tendr a / neu fynegi diddordeb, gan ddibynnu pa weithdrefn sy'n cael ei defnyddio. Gallwch weld y rhain drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod:-

https://www.sell2wales.gov.wales/Guides/Guide_Download.aspx?id=5140

Dylid nodi mai graddfeydd amser **sylyfaenol** yn unig yw'r rhain – yn dibynnu ar natur y nwyddau / gwasanaethau sy'n cael eu prynu a chymhlethdod y tendr y byddech yn hoffi caniatáu i ymgeiswyr gael rhagor o amser i ymateb iddo. Cofiwch nad oes gan gyflenwyr mawr a chwmnïau trydydd sector dimau mawr i ddelio gyda thendrau, felly mae'n bosibl y bydd arnynt angen rhagor o amser i baratoi eu cyflwyniadau.

Pan fydd y tendrau (dan y weithdrefn agored) neu holiaduron dewis (dan y weithdrefn gyfyngedig) wedi cael eu dychwelyd a'u hagor, bydd y broses o ddewis a dyfarnu'n dechrau. Mae'n werth nodi bod yn rhaid i'r holl feini prawf dewis a dyfarnu fod yn gysylltiedig ac yn gymesur â phwnc y contract.

Y Cam Dewis

Dylai unrhyw ofynion neu safonau sylfaenol gael eu nodi'n glir yn yr hysbysiad contract neu'r gwahoddiad i gadarnhau diddordeb fel bod cyflenwyr yn gallu tynnu'n ôl os oes angen.

Symleiddio'r Cam Dewis

Yn ystod y cam dewis, un o brif ofynion Datganiad Polisi Caffael Cymru (Egwyddor 5) yw y dylai cyrff cyhoeddus fabwysiadu dull gweithredu cymesur sy'n seiliedig ar risg. Mae hyn yn sicrhau bod y broses mor syml ag sy'n bosibl i gyflenwyr er mwyn lleihau amser a chost y broses o wneud cais. Er mwyn gwneud hyn mae angen meddwl yn ofalus am y cwestiynau dewis rydych yn eu gofyn a gwybod sut rydych yn mynd i'w sgorio. Mae cwestiynau SQuID a Squizard ar GwerthwchiGymru wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu Rheoliadau 2015 ac maent yn gyson ag egwyddorion hunan-ddatgan. Mae'n debyg y bydd set gwestiynau SQuID yn cael ei disodli gan Ddogfen Gaffael Sengl Ewropeaidd (ESPD) electronig ar GwerthwchiGymru yn 2017, ond tan hynny gallwch ddal i ddefnyddio SQuID yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am ESPD i'w gweld yn yr adran nesaf.

Dogfen Gaffael Sengl Ewropeaidd (ESPD)

Mae'r ESPD yn ofyniad newydd yng Nghyfarwyddeb Gaffael newydd yr UE, Cyfarwyddeb 2014/24/EU, a daeth yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig drwy Reoliad 59 yn Rheoliadau 2015. Cafodd ei chyflwyno er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar gyflenwyr sy'n ymgeisio am waith sector cyhoeddus.

Mae'r ESPD yn ddatganiad ffurfiol - 'hunan-ddatganiad' gan gwmnïau sy'n gwneud cais, nad yw'r meini prawf gwahardd yn berthnasol iddynt, ac sy'n bodloni'r gofynion dewis perthnasol ar gyfer rhoi ymgeiswyr cymwys ar restr fer.

Er bod yr ESPD wedi dod i rym ddiwedd Ionawr 2016, nid oedd gorfodaeth i'w defnyddio ar unwaith. Mae'r Comisiwn wedi cydnabod y gwaith technegol sydd ei angen er mwyn integreiddio'r ESPD â'i systemau ei hun a'r rhai ar draws Ewrop, ac mae'n fodlon i SQuID gael ei ddefnyddio nes bydd ESPD electronig ar gael ar GwerthwchiGymru.

Sail dros Wahardd

Mae seiliau amrywiol dros wahardd yn cael eu nodi yn Rheoliad 57 yn Rheoliadau 2015. Seiliau gorfodol yw'r rhai sy'n ymwneud â throseddau fel cynllwynio, twyll, masnachu anghyfreithlon a throseddau terfysgol. Mae newidiadau wedi'u gwneud yn ddiweddar i Reoliadau 2015, er mwyn cynnwys caethwasiaeth fodern a throseddau cysylltiedig fel masnachu pobl, caethwasiaeth a llafur dan orfod fel seiliau dros wahardd.

Os yw rhywun sy'n gwneud cais wedi cael ei ddyfarnu'n euog o unrhyw drosedd a restrir yn Rheoliad 57, rhaid iddo gael ei wahardd o'r broses (oni bai ei fod yn darparu tystiolaeth foddhaol o 'hunan-lanhau' – gweler isod). Y cyfnod ar gyfer gwaharddiad gorfodol yw 5 mlynedd o ddyddiad yr euogfarn.

Mae seiliau dewisol dros wahardd yn cynnwys methdaliad, camymddwyn difrifol a diffygion parhaus wrth gyflawni gofyniad sylfaenol dan gontract cyhoeddus blaenorol, ac mae'r rhain yn amgylchiadau pan all yr awdurdod contractio benderfynu fesul achos unigol a ddylai rhywun sy'n gwneud cais gael ei wahardd. Y cyfnod ar gyfer gwaharddiad dewisol yw 3 blynedd o ddyddiad y digwyddiad perthnasol.

Os oes unrhyw seiliau dros wahardd yn berthnasol, dylid nodi bod **rhaid rhoi cyfle i'r sawl sy'n gwneud cais ddarparu tystiolaeth o 'hunan-lanhau'**, hynny yw, darparu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi cymryd camau digonol a phriodol i gywiro'r sefyllfa a sicrhau na fydd y broblem yn digwydd eto, ac y gellir ei ystyried yn ddibynadwy (Rheoliad 57(13) yn Rheoliadau 2015). Os yw'r awdurdod contractio'n credu bod unrhyw dystiolaeth a ddarparwyd yn annigonol, rhaid iddo roi datganiad i'r sawl sy'n gwneud cais yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Gall awdurdodau contractio benderfynu peidio â dyfarnu fframwaith i'r cwmni sy'n cyflwyno'r tendr mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd os yw wedi canfod nad yw'r tendr yn cydymffurfio â rhwymedigaethau perthnasol ym meysydd cyfraith amgylcheddol, gymdeithasol a llafur a sefydlwyd gan gyfraith yr UE, cyfraith genedlaethol, cyd-gytundebau neu drwy'r darpariaethau cyfraith ryngwladol, amgylcheddol, gymdeithasol a llafur a restrir yn Atodiad X i'r Gyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus (Rheoliad 56(2) yn Rheoliadau 2015).

Mae darpariaeth hefyd yn Rheoliadau 2015 sy'n caniatáu i awdurdodau contractio wahardd ymgeiswyr sy'n cyflwyno tendrau anarferol o isel, lle nad yw'r ymgeiswyr yn gallu rhoi

egllurhad boddhaol dros y pris isel a gynigiwyd (Rheoliad 69 yn Rheoliadau 2015). Pan dderbynnir tendrau anarferol o isel, rhaid i brynwyr ofyn i ymgeiswyr egluro'r pris neu'r costau a gynigiwyd yn y tendr. Rhaid i'r awdurdod contractio asesu'r wybodaeth a ddarparwyd drwy ymgynghori â'r sawl a gyflwynodd y tendr.

Meini Prawf ar gyfer Dewis

Rhaid i unrhyw feini prawf ar gyfer dewis a bennir gan awdurdodau contractio fod yn gysylltiedig ac yn gymesur â phwnc y fframwaith. Gall meini prawf ar gyfer dewis ymwneud â'r canlynol:-

- Addasrwydd i gyflawni gweithgaredd proffesiynol;
- Sefyllfa economaidd ac ariannol; a
- Gallu technegol a phroffesiynol.

Mae'r cam dewis wedi cael ei symleiddio yn Rheoliadau 2015 i'w gwneud hi'n haws ac yn llai costus i fusnesau bach a chanolig wneud cais am gontractau cyhoeddus. Gall ymgeiswyr brofi eu haddasrwydd, eu statws ariannol a'u galluoedd â hunan-ddatganiadau, a darparu tystiolaeth ddogfennol lawn ar ddiwedd y broses yn unig cyn dyfarnu'r contract (mae SQuID wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r dull gweithredu hwn, yn unol ag ESPD). I bob pwrpas, dim ond yr ymgeisydd llwyddiannus sy'n gorfod darparu tystiolaeth, ond gall awdurdod contractio ofyn am dystiolaeth ategol gan unrhyw ymgeisydd ar unrhyw adeg yn y broses dendro os oes angen er mwyn sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei chynnal yn briodol. Nid yw hyn yn ofynnol ar gyfer pob contract yn ôl y gofyn sy'n seiliedig ar gytundebau fframwaith fodd bynnag.

O ran trothwyon ariannol, dylid nodi bod y trosiant blynyddol lleiaf y mae'n rhaid i ymgeiswyr ei gael wedi ei gapio ar lefel o ddwywaith cymaint â gwerth amcangyfrifedig y contract, ac eithrio mewn achosion y gellir eu cyfiawnhau'n briodol, er enghraifft drwy gyfeirio at risgiau arbennig sydd ynghlwm wrth natur y gwaith, y gwasanaethau neu'r cyflenwadau. Mewn achosion o'r fath, bydd yr awdurdod contractio'n nodi ei brif resymau yn y dogfennau caffael.

Mae Rheoliadau 2015 yn darparu eglurhad ychwanegol ynglŷn â sut y mae penderfynu ynglŷn â sefyllfa economaidd ac ariannol ymgeiswyr yn berthnasol i lotiau, cytundebau fframwaith a systemau prynu dynamig (Rheoliad 58(11 i 14) yn Rheoliadau 2015) fel a ganlyn:-

- Lle defnyddir lotiau, mae Rheoliad 58 yn berthnasol i bob lot unigol;
- Os dyfernir nifer o lotiau i'w cyflawni yr un pryd i'r sawl a gyflwynodd y tendr llwyddiannus, gall yr awdurdod contractio bennu'r trosiant blynyddol lleiaf y mae'n ofynnol i gyflenwyr ei gael drwy gyfeirio at y grwpiau o lotiau;
- Lle mae contractau yn seiliedig ar gytundeb fframwaith i'w dyfarnu ar ôl ailagor cystadleuaeth, bydd y trosiant blynyddol mwyaf sy'n ofynnol yn cael ei gyfrifo ar sail uchafswm disgwylidig contractau penodol a fydd yn cael eu cyflawni yr un pryd, neu, os nad yw'n hysbys, ar sail gwerth amcangyfrifedig y cytundeb fframwaith;
- Lle defnyddir system brynu ddynamig, bydd y trosiant blynyddol mwyaf yn cael ei gyfrifo ar sail uchafswm disgwylidig contractau penodol i'w dyfarnu dan y system

brynu ddynamig.

Dylai awdurdodau contractio nodi bod y Comisiwn yn credu bod y rhwymedigaeth dryloywder sy'n bodoli yn y cam dyfarnu hefyd yn berthnasol i'r cam dewis. Argymhellir bod yr wybodaeth a ganlyn yn cael ei nodi ymlaen llaw yn yr hysbysiad contract a/neu'r gwahoddiad i dendro er mwyn ei gwneud hi'n hawdd i ymgeiswyr weld beth y gofynnir amdano:-

- Datgeliad llawn o sgorau holiaduron hunan-gymhwyso a phwysoliadau ar gyfer meini prawf AC unrhyw is feini prawf (byddai hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw lotiau);
- Unrhyw farciau pasio, trothwyon neu safonau sylfaenol;
- Cwestiynau beirniadol a fyddai'n gwahardd yr ymgeisydd o'r broses (dylid gosod y rhain ynghlwm ar y dudalen flaen fel bod modd eu gweld yn glir)

Y Cam Dyfarnu

Y cam dyfarnu neu 'werthuso tendrau' yw'r adeg pan mae tendrau'n cael eu gwerthuso ar sail meini prawf gwerthuso wedi'u diffinio'n glir, er mwyn penderfynu pa gwmni sydd wedi cyflwyno'r tendr mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd. Mae Rheoliadau 2015 yn cynnwys diffiniad diwygiedig o'r cysyniad o gwmni sy'n cyflwyno'r tendr mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd, ac mae'n wahanol i'r un y bydd prynwyr wedi dod yn gyfarwydd ag ef.

Roedd y rheolau blaenorol yn darparu dewis rhwng defnyddio tendr mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd neu'r pris isaf fel meini prawf dyfarnu. Roedd y tendr mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd yn arfer golygu i bob pwrpas y tendr a oedd yn cynnig y gwerth gorau am arian (neu'r gymhareb pris/ansawdd gorau). Er bod y rheolau newydd yn cyfeirio at y tendrau mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd, mae'r diffiniad o dendr mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd wedi newid yn sylweddol, ac mae'r diffiniad newydd yn llawer mwy hyblyg. Mae'n caniatáu, ymhlith pethau eraill, i gontractau/fframweithiau gael eu dyfarnu ar sail pris isaf.

Wrth werthuso tendrau, rhaid i awdurdodau contractio ddyfarnu contractau cyhoeddus ar sail y tendr mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd wedi'i asesu o safbwynt yr awdurdod contractio (Rheoliad 67(1) yn Rheoliadau 2015). Bydd y tendr hwnnw'n cael ei nodi ar sail y pris neu'r gost, gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar gosteffeithiolrwydd, er enghraifft costio cylch bywyd (Rheoliad 68) a gall gynnwys y gymhareb pris-ansawdd gorau, y mae'n rhaid iddi gael ei hasesu ar sail meini prawf fel pris neu gost ynghyd â meini prawf eraill fel agweddau ansoddol, amgylcheddol a/neu gymdeithasol, yn gysylltiedig â phwnc y contract cyhoeddus dan sylw er enghraifft:-

- (a) ansawdd, gan gynnwys rhagoriaethau technegol, nodweddion esthetig a gweithredol, hygrychedd, cynllun ar gyfer pob defnyddiwr, nodweddion cymdeithasol, amgylcheddol ac arloesol a masnachu a'i amodau;
- (b) trefniadaeth, cymhwysedd a phrofiad staff a neilltuwyd i gyflawni'r contract, lle gall ansawdd y staff a neilltuwyd gael effaith sylweddol ar lefel cyflawni'r contract; neu
- (c) gwasanaeth ar ôl gwerthu a chymorth technegol, amodau danfon, er enghraifft dyddiad danfon, y broses ddanfon a'r cyfnod danfon neu gyfnod cwblhau (Rheoliad 67(3) yn Rheoliadau 2015).

Cymerir bod y meini prawf dyfarnu'n gysylltiedig â phwnc y contract os ydynt yn ymwneud â'r gwaith, cyflenwadau neu wasanaethau sydd i'w darparu o dan y contract hwnnw mewn unrhyw ffordd ac yn ystod unrhyw gam yn eu cylch bywyd, gan gynnwys ffactorau sy'n ymwneud â'r canlynol:-

(a) y broses benodol o gynhyrchu, darparu neu fasnachu'r gwaith, cyflenwadau neu wasanaethau hynny, neu

(b) proses benodol ar gyfer cam arall o'u cylch bywyd, hyd yn oed os nad yw'r ffactorau hynny'n rhan ohonynt yn eu hanfod (Rheoliad 67(5) yn Rheoliadau 2015).

Rhaid nodi pwysoliadau'r meini prawf dyfarnu yn y dogfennau caffael, ac eithrio lle maent yn cael eu nodi ar sail pris yn unig. Gellir mynegi'r pwysoliadau hyn drwy ddarparu ar gyfer ystod ag uchafswm rhychwant priodol. Lle nad yw pwysoli'n bosibl am resymau gwrthrychol, bydd yr awdurdod contractio'n nodi'r meini prawf yn eu trefn, o'r un mwyaf pwysig i'r un lleiaf pwysig (Rheoliad 67(9) – (11) yn Rheoliadau 2015).

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y meini prawf dyfarnu drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod:-

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/417934/Guidance_on_Awarding_Contracts.pdf

Dyfarnu'r Cytundeb Fframwaith

Gellir dyfarnu'r cytundeb fframwaith i gyflenwr unigol neu i nifer o gyflenwyr. Dylid bod wedi ystyried yn gynharach yn y broses dendro p'un ai fframwaith unigol ynteu fframwaith aml-gyflenwr fydd yn cael ei ddyfarnu (gweler Adran 4).

Ar ôl ysgrifennu i hysbysu'r cyflenwr/cyflenwyr llwyddiannus a'r cyflenwr/cyflenwyr aflwyddiannus, bydd angen i'r awdurdod contractio sy'n arwain y fframwaith gydymffurfio â'r cyfnodau segur gorfodol a nodir yn Rheoliad 87 yn Rheoliadau 2015.

Dylid nodi, ar ôl i'r cyfnod segur ddod i ben, ac ar ôl i'r cytundeb fframwaith gael ei gwblhau, bod rhaid anfon **hysbysiad dyfarnu contract** i'w gyhoeddi yn OJEU cyn pen 30 niwrnod ar ôl dyfarnu'r cytundeb fframwaith (Rheoliad 50 yn Rheoliadau 2015) a gellir gwneud hyn drwy <https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/>.

9. Manteision Ôl-drafodaeth gyda'r Cyflenwr

Ôl-drafodaeth gyda'r cyflenwr yw'r broses lle mae'r prynwr yn rhoi adborth i gyflenwyr aflwyddiannus ynglŷn â'u cais. Mae hyn yn golygu rhoi gwybod iddynt pam nad oeddent yn llwyddiannus, ac mae'n eu galluogi i wella eu ceisiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn elfen hollbwysig o broses gaffael effeithiol ac mae'n rhywbeth y mae gan gyflenwyr hawl iddo. Mae hyn yn cael ei gadarnhau yn Egwyddor 8 yn Natganiad Polisi Caffael Cymru sy'n nodi bod angen sicrhau bod ôl-drafodaeth 'yn darparu adborth digonol am y tendr'. Amlinellir rhai o'r manteision i brynwr a chyflenwr isod.

Manteision i'r prynwr:

- Yn dangos i'r farchnad bod prosesau caffael yn sector cyhoeddus Cymru yn cael eu gweithredu mewn ffordd deg, agored a thryloyw, yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol;
- Cael adborth defnyddiol gan ymgeiswyr ynglŷn â sut y gellid gwella'r broses gaffael yn y dyfodol;
- Mwy o debygolrwydd y bydd cyflenwr sydd wedi cael ôl-drafodaeth yn cyflwyno tendr am gontractau yn y dyfodol, gan gynyddu cystadleuaeth er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf am y bunt Gymreig; a
- Lleihau'r risg y bydd cyflenwyr yn herio'r broses.

Manteision i'r cyflenwr:

- Mwy o hyder bod caffael yn sector cyhoeddus Cymru yn cael ei gynnal yn deg, gan gydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoliadol, ac yn unol â'r meini prawf gwerthuso sydd wedi'u cyhoeddi a'r system sgorio;
- Cydnabyddiaeth o'r amser, yr ymdrech a'r adnoddau a fuddsoddwyd yn y broses, a allai eu hannog i wneud cais yn y dyfodol;
- Dod i ddeall yn well pam nad oeddent yn llwyddiannus, beth oedd cryfderau a gwendidau eu cais a pha feysydd y mae angen eu gwella; a
- Llai tebygol o herio'r broses.

Mae rhagor o wybodaeth am ôl-drafodaeth gyda'r cyflenwr i'w gweld yn y Canllaw Cynllunio Caffael drwy ddilyn y ddolen gyswilt a ganlyn:

<http://prp.gov.wales/planners/general/contractaward/supplierdebrief/?jsessionid=DC885494B286C163C691D59FB7DBE65A?lang=cy>

10. Caffael o'r Fframwaith yn ôl y Gofyn

Rhaid i'r awdurdod contractio sy'n caffael contract yn ôl y gofyn dan gytundeb fframwaith allu cyfiawnhau pam y mae wedi caffael yn ôl y gofyn gan gyflenwr penodol.

Ar ôl dyfarnu cytundeb fframwaith, cyn belled bod y rheolau yn Rheoliadau 2015 wedi cael eu dilyn wrth sefydlu'r cytundeb, gall yr awdurdod contractio – neu awdurdodau yn achos cytundebau fframwaith cydweithredol - gaffael y nwyddau, gwasanaethau neu waith o'r fframwaith yn ôl y galw, drwy ddyfarniad uniongyrchol neu drwy fini-gystadleuaeth.

Wrth gaffael o fframwaith yn ôl y galw, rhaid i gontractau gael eu dyfarnu yn unol â Rheoliadau 2015. Ni chaiff contractau sy'n seiliedig ar gytundeb fframwaith, mewn unrhyw amgylchiadau, gynnwys addasiadau sylweddol i'r telerau a osodwyd yn y cytundeb fframwaith hwnnw, yn enwedig os yw cytundeb fframwaith yn cael ei wneud gydag un cyflenwr.

Er bod rhaid i gontractau yn ôl y gofyn gael eu dyfarnu cyn diwedd cyfnod y cytundeb fframwaith, nid yw hyd contractau yn ôl y gofyn dan gytundebau fframwaith wedi'u cyfyngu'n benodol gan ddeddfwriaeth, a gallant ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad y mae'r fframwaith yn dod i ben, a phara am fwy na phedair blynedd (Cronicliad 62, Cyfarwyddeb Caffael Cyhoeddus yr UE 2014).

Dylai hyd y contractau yn ôl y gofyn, fel contractau eraill, fod yn briodol i'r hyn sy'n cael ei brynu a dylai adlewyrchu ystyriaethau gwerth am arian. Wrth benderfynu ynglŷn â hyd contract unigol yn seiliedig ar gytundeb fframwaith, gall awdurdodau contractio ystyried ffactorau fel yr amser sydd ei angen ar gyfer eu cyflawni, lle mae cynnal a chadw offer ag oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o fwy na phedair blynedd yn cael ei gynnwys neu lle mae angen darparu llawer o hyfforddiant i staff er mwyn cyflawni'r contract.

Fodd bynnag, ni ddylid gwneud hyn er mwyn mynd o'r tu arall i reolau'r UE. Er enghraifft, efallai y byddai'n anodd cyfiawnhau contract 12 mis yn ôl y gofyn, yn agos iawn at ddiwedd y fframwaith ei hun, os mai'r patrwm arferol ar gyfer y nwyddau, gwasanaethau neu waith dan sylw oedd i gontractau yn ôl y gofyn o'r fath bara am ddim ond mis ar y tro.

Cyfnod Segur ar gyfer Contractau yn ôl y Gofyn

Mae'r rhwymedigaeth sy'n ymwneud â chyfnod segur yn berthnasol i ddyfarnu'r cytundeb fframwaith ei hun, ac nid yw'n orfodol ar gyfer contractau yn ôl y gofyn o dan y fframwaith. Er hyn, mae'n ymarfer da i gymhwyso cyfnod segur at gontractau yn ôl y gofyn sy'n cael eu gwneud o dan y cytundeb fframwaith hefyd, gan y bydd yn diogelu'r awdurdod rhag hawliadau yn ymwneud ag aneffeithiolrwydd dan Reoliad 99(6) yn Rheoliadau 2015.

Os bydd llys yn cyhoeddi bod y contract yn ôl y gofyn yn "anefeithiol", rhaid i'r gwaith o gyflawni'r contract ddod i ben o'r dyddiad hwnnw. Byddai'n ofynnol i'r awdurdod contractio dalu dirwy, a gall y llys hefyd orchymyn iddo dalu iawndal i'r hawlydd.

Drwy gymhwyso cyfnod segur at gontractau yn ôl y gofyn, mae'r awdurdod sy'n caffael yn ôl y gofyn yn cael ei ddiogelu rhag hawliadau o'r fath. Cyn belled nad oes her yn codi yn ystod y cyfnod segur, mae cyflenwyr yn cael eu gwahardd rhag gallu hawlio rhwymedi aneffeithiolrwydd ar y sail na chafodd rheolau'r fini-gystadleuaeth eu dilyn yn briodol.

Fframweithiau Cyflenwr Unigol

Ar gyfer cytundebau fframwaith cyflenwr unigol, bydd contractau yn ôl y gofyn yn cael eu gwneud drwy ddyfarniad uniongyrchol i'r cyflenwr unigol hwnnw a rhaid iddynt fod yn unol â thelerau'r fframwaith. Efallai y bydd angen nodi manylion penodol ar yr adeg caffael yn ôl y gofyn, ac os oes angen caniateir i'r awdurdod contractio gwneud cais ysgrifenedig yn gofyn i'r cyflenwr ychwanegu at ei dendr.

Fframweithiau Aml-gyflenwr

Un o'r newidiadau yn Rheoliadau 2015 yw bod cytundebau fframwaith aml-gyflenwr bellach yn gallu cynnwys dim ond dau gyflenwr (cyn hyn roedd lleiafswm o dri). Ar gyfer fframweithiau aml-gyflenwr, mae'r Rheoliadau'n darparu **tair** ffordd bosibl o ddewis y darparwr a gwneud contractau penodol: dyfarnu'n uniongyrchol; mini-gystadleuaeth; neu gyfuniad o'r ddau.

i. Dyfarniad uniongyrchol heb ailagor cystadleuaeth

Os yw'r cytundeb fframwaith yn amlinellu'r holl delerau sy'n rheoli'r modd y darperir y gwaith, gwasanaethau a/neu gyflenwadau dan sylw a'r holl amodau gwrthrychol sy'n ofynnol er mwyn penderfynu pa gyflenwr fydd yn cyflawni'r contract penodol, yna mae'n bosibl dyfarnu'r contract heb ailagor cystadleuaeth ymhlith partiön y cytundeb fframwaith. Yn yr achos hwn, rhaid i'r dewis o ddarparwr fod yn seiliedig ar y meini prawf gwrthrychol a osodwyd yn y tendr.

ii. Cyfuniad o ddyfarniad uniongyrchol a mini-gystadleuaeth (Newydd)

Mae'r dewis hwn ar gael os yw'r dogfennau caffael ar gyfer y cytundeb fframwaith yn nodi y gellir ei ddefnyddio, ac os yw'r cytundeb fframwaith yn amlinellu'r holl delerau sy'n rheoli'r modd y darperir y gwaith, cyflenwadau a gwasanaethau dan sylw. Rhaid i'r dogfennau caffael ar gyfer y cytundeb fframwaith amlinellu meini prawf gwrthrychol a fydd yn cael eu defnyddio i bennu a fydd contract penodol yn cael ei wneud ar ôl ailagor cystadleuaeth ynteu yn uniongyrchol ar sail y telerau a amlinellwyd yn y cytundeb fframwaith er mwyn iddo fod yn glir ac yn dryloyw i bob defnyddiwr a chyflenwr. Dylai'r dogfennau caffael hefyd nodi pa delerau fydd yn berthnasol i ailagor cystadleuaeth. Er enghraifft, gallai dyfarniad uniongyrchol fod ar gyfer y cyflenwyr hynny a ddyrannwyd i ddarparu nwyddau i ranbarth penodol, a gallai'r meini prawf gwrthrychol cysylltiedig ar gyfer dewis ailagor cystadleuaeth fod fel a ganlyn:-

- a. mae'r contract yn fwy na throthwy ariannol a bennwyd;
- b. mae nifer y cynnyrch sydd eu hangen dros lefel benodol; ac
- c. mae gan y contract ofynion arbennig o gymhleth.

iii. Mini-gystadlaethau

Pan nad yw'r cytundeb fframwaith yn cynnwys yr holl delerau sy'n rheoli'r modd y darperir y gwaith, gwasanaethau a chyflenwadau dan sylw, rhaid i'r awdurdod contractio drefnu 'mini-gystadleuaeth' rhwng y darparwyr sy'n rhan o'r cytundeb fframwaith. Nid oes angen i'r meini prawf dyfarnu a ddefnyddir ar gyfer mini-gystadlaethau fod yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd wrth ddyfarnu'r cytundeb fframwaith ei hun. Mae Rheoliad 33(11) yn Rheoliadau 2015 yn caniatáu i awdurdod contractio ategu'r telerau gwreiddiol â thelerau wedi'u llunio'n fwy penodol lle bo angen, a thelerau eraill y cyfeirir atynt yn y dogfennau caffael, lle bo'n briodol. Dylai'r awdurdod contractio ddyfarnu'r contract yn ôl y gofyn i'r darparwr sydd wedi cyflwyno'r tendr gorau ar sail y meini prawf dyfarnu a amlinellwyd yn y cytundeb fframwaith gan ganolbwyntio ar y gofyniad penodol. Rhaid i awdurdodau contractio nodi'n glir yn y tendr pa feini prawf / methodoleg fydd yn cael eu defnyddio wrth ddyfarnu contractau yn ôl y gofyn.

11. Pwysigrwydd Rheoli Contractau

Gall cysylltiadau da â chyflenwyr wella perfformiad dan gytundeb fframwaith ac arwain at welliant parhaus.

Mae dyfarnu'r cytundeb yn dynodi diwedd y cam tendro a dechrau'r cam gweithredol. Rheoli contract yw'r broses sy'n sicrhau bod y ddau barti mewn contract yn cyflawni eu rhwymedigaethau perthynol yn llawn, a hynny mor effeithlon ac effeithiol ag sy'n bosibl. Mae'n hanfodol bod y contract a'r cyflenwr/cyflenwyr yn cael eu monitro er mwyn sicrhau bod y gofynion / lefel gwasanaeth y cytunwyd arnynt yn y contract yn cael eu cyflawni a'u mesur, a bod gwerth am arian yn dal i gael ei ddarparu drwy gydol oes y fframwaith. Mae hyn yn bwysig iawn os yw Budd i'r Gymuned wedi ei gynnwys yn y fframwaith.

Mae rheoli contract yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:-

- Sefydlu grŵp rheoli contract i gynnal cyfarfodydd adolygu contract rheolaidd gyda chyflenwyr. Byddai hyn yn cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid / defnyddwyr terfynol ac awdurdodau contractio eraill yn achos cytundeb fframwaith cydweithredol;

- Sefydlu gweithdrefnau cadarn er mwyn rhoi sylw i berfformiad gwael gan gyflenwyr, sicrhau bod unrhyw berfformiad sy'n gyson ddiffygiol yn cael ei gofnodi'n briodol, gan nodi'r manylion a'r dyddiad (gweler isod);
- Pennu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) – gall y rhain fod ar sawl lefel, o dargedau pris a chyflawni syml i annog arloesi yn y ffordd y mae'r contract yn cael ei gyflawni;
- Sicrhau bod y cyflenwr/cyflenwyr ar y fframwaith yn darparu Gwybodaeth Reoli reolaidd i bob awdurdod contractio gan ddefnyddio'r cytundeb fframwaith;
- Sicrhau eich bod yn cofnodi'r arbedion a'r budd sy'n deillio o'r fframwaith; a
- Datblygu perthnasoedd da gyda chyflenwyr – gall hyn arwain at ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng y ddwy ochr, agwedd agored, cyfathrebu da a dulliau gweithredu a chyfrifoldeb ar y cyd am gyflawni'r contract.

Ymdrin â Pherfformiad Gwael

Dylai gweithdrefnau rheoli contract da gynnwys mesur a monitro perfformiad cyflenwyr ac ymdrin yn effeithiol ag unrhyw broblemau yn ymwneud â pherfformiad gwael gan gyflenwr. Mae hyn yn bwysig iawn dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus newydd 2015 gan fod gwaharddiad dewisol sy'n caniatáu i awdurdodau contractio wahardd cyflenwyr sydd wedi dangos diffygion sylweddol neu barhaus:-

'significant or persistent deficiencies in the performance of a substantive requirement under a prior public contract, a prior contract with a contracting entity, or a prior concession contract, which led to early termination of that prior contract, damages or other comparable sanctions' (57(8)(g)).

Argymhellir felly bod mecanweithiau cadarn yn cael eu sefydlu er mwyn rhoi sylw i broblemau yn ymwneud â pherfformiad gwael gan gyflenwyr, a dylai'r rhain fod yn glir i brynwyr a chyflenwyr. Dylai awdurdodau contractio sy'n defnyddio'r fframwaith roi sylw i unrhyw broblemau perfformiad gwael drwy eu cyfarfodydd adolygu contractau a chyflenwyr eu hunain, ac yn achos cytundeb fframwaith cydweithredol, dylent hefyd ddod â'r mater i sylw rheolwr contractau'r awdurdod a oedd yn arwain y fframwaith. Os nad oes modd datrys y problemau, dylid cael darpariaeth fel bod modd tynnu'r cyflenwr â pherfformiad gwael o'r fframwaith cyn unrhyw ail gystadleuaeth.

12. Addasu'r Fframwaith yn ystod ei Gyfnod

Mewn rhai amgylchiadau penodol mae'n bosibl addasu contract ar ôl iddo gael ei ddyfarnu heb fod angen ei ail-hysbysebu yn yr OJEU, ac mae Rheoliadau 2015 yn egluro hyn dan Reoliad 72. Mae'r seiliau sy'n caniatáu addasu yn cynnwys:-

- bodolaeth cymalau adolygu "clir, manwl a diamwys" addas yn y contract;
- angen rhagor o gyflenwadau neu wasanaethau lle byddai newid cyflenwr yn achosi anhwylystod sylweddol, neu angen rhagor o gyflenwadau oherwydd amgylchiadau na ellid eu rhagweld (yn amodol ar gynnydd o 50% ar y mwyaf i werth cychwynnol y contract);
- lle bo cyflenwr newydd yn cymryd lle'r cyflenwr presennol oherwydd methdaliad neu ailstrwythuro gwirioneddol; a

- lle nad yw'r addasiad, beth bynnag ei werth, yn sylweddol.

Diffinnir newid 'sylweddol' yn Rheoliad 72(8) yn Rheoliadau 2015. Mae'n newid sydd, beth bynnag ei werth, yn bodloni un neu ragor o'r amodau hyn:

- Yn gwneud y contract yn wahanol iawn i'r contract/fframwaith gwreiddiol;
- Byddai wedi caniatáu i gyflenwyr posibl eraill gymryd rhan neu gael eu dewis, neu i dendr arall gael ei dderbyn;
- Yn newid y cydbwysedd economaidd o blaid y contractwr;
- Yn ymestyn cwmpas y contract/fframwaith "gryn dipyn";
- Yn darparu ar gyfer contractwr newydd yn lle'r contractwr gwreiddiol, ac eithrio lle mae'r newid yn codi o gymal adolygu neu opsiwn yn y contract gwreiddiol neu o newidiadau corfforaethol megis uno, cymryd drosodd neu fethdaliad.

Os nad yw'r newid rydych eisiau ei wneud yn bodloni'r profion hyn yna mae angen gweithdrefn gaffael newydd, sy'n cael ei chynnal yn unol â'r rheolau caffael.

Mae rhagor o ganllawiau ar addasu contractau yn ystod eu cyfnod i'w gweld yn https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/466370/Guidance_on_Amendments_to_Contracts_-_Oct_2015.pdf

Dylech ofyn am gyngor cyfreithiol cyn gwneud unrhyw addasiadau / newidiadau os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn â'u cyfreithlondeb.

13. Rhestr o Bethau i'w Gwneud a Phethau i Beidio â'u Gwneud gyda Chytundebau Fframwaith

PETHAU I'W GWNEUD	PETHAU I BEIDIO Â'U GWNEUD
Gwnewch yn siŵr eich bod yn meddwl yn ofalus ai cytundeb fframwaith yw'r opsiwn gorau er mwyn diwallu eich anghenion – fyddai system brynu ddynamig yn well?	Peidiwch â rhuthro i roi cytundeb fframwaith ar dendr heb yr astudiaeth ddichonoldeb angenrheidiol ac eglurder ynglŷn â defnyddwyr a gwerth
Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi gofynion a chwmpas y cytundeb yn glir ymlaen llaw ar gyfer y cyflenwyr	Peidiwch â gwneud cytundeb â gofynion / cwmpas aneglur a manyleb wael
Gwnewch yn siŵr bod y tendr yn adlewyrchu gofynion Datganiad Polisi Caffael Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015	Peidiwch ag anghofio bod gwerth am arian yn cynnwys ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach a gwnewch yn siŵr bob amser bod tendrau yn addas i fusnesau bach a chanolig
Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio dull gweithredu cymesur sy'n seiliedig ar risg er mwyn dewis cyflenwr	Peidiwch â rhoi baich diangen ar gyflenwyr bach drwy ofyn cwestiynau amherthnasol a gofyn am fwy o wybodaeth nag sydd ei angen

<p>Gwnewch eich prawf diwydrwydd dyladwy eich hun cyn defnyddio fframwaith rhywun arall er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn gyfreithlon i chi ei ddefnyddio</p>	<p>Peidiwch â chymryd yn ganiataol y gallwch ddefnyddio unrhyw gytundeb fframwaith arall sy'n bodoli</p>
<p>Gwnewch yn siŵr, os ydych yn defnyddio e-ocsiwn, bod cyflenwyr wedi cael eu hysbysu ymlaen llaw a bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn</p>	<p>Peidiwch â chymryd yn ganiataol y gallwch benderfynu cynnal e-ocsiwn yng ngham gwerthuso'r tendr</p>
<p>Gwnewch yn siŵr eich bod yn datgelu'r pwysoliadau a'r sgorau fydd yn cael eu defnyddio i werthuso wrth gynnal mini-gystadleuaeth</p>	<p>Peidiwch â chynnwys meini prawf sydd wedi cael eu hasesu'n barod nac ychwanegu meini prawf amherthnasol</p>
<p>Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y broses briodol ar gyfer caffael yn ôl y gofyn o'r cytundeb</p>	<p>Peidiwch â chreu cytundebau "fframwaith o fewn fframwaith" er mwyn cyfyngu maes mawr o gyflenwyr ar gyfer contractau yn ôl y gofyn.</p>
<p>Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn methodoleg / meini prawf clir ar gyfer penderfynu gan ba gyflenwr rydych am gaffael</p>	<p>Peidiwch â meddwl y gallwch gaffael yn ôl y gofyn gan ba bynnag gyflenwr rydych yn ei ddewis heb gyfiawnhad</p>
<p>Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at gwmpas gwreiddiol y fframwaith ac at y telerau a'r amodau</p>	<p>Peidiwch ag ychwanegu neu newid telerau ac amodau'r fframwaith</p>
<p>Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi adborth drwy ôl-drafodaeth gyda'r cyflenwr ar ôl rhoi'r tendr, yn sicrhau trefniadau rheoli contract effeithiol ac yn cadw cofnod priodol o unrhyw ddiffygion sydd gan y cyflenwyr</p>	<p>Peidiwch â gadael ymgeiswyr yn y niwl heb wybod pam eu bod wedi colli ... neu osod ac anghofio, gan obeithio y bydd y cytundeb yn rhedeg ei hun</p>

14. Cwestiynau Cyffredin

C. Sut mae nodi cyfranogwyr / gwariant ar gyfer cytundeb fframwaith cydweithredol?

A. Argymhellir eich bod yn gwneud astudiaeth ddichonoldeb fanwl er mwyn nodi'r awdurdodau contractio hynny sydd wedi ymrwmo i ddefnyddio'r cytundeb. Dylech gynnwys rhestr o'r rhain yn yr hysbyseb contract a'r gwahoddiad i dendro (neu ddarparu doler gyswllt yn arwain at y rhestr). Nid yw cyfeiriadau amwys at "unrhyw awdurdod contractio" neu "bob corff cyhoeddus yng Nghymru" yn ddigon tryloyw, ac ni fyddent yn bodloni gofynion Rheoliadau 2015 (Rheoliad 33(5)). Dylai gwariant drwy'r cytundeb fframwaith gael ei fonitro drwy gydol cyfnod y cytundeb fframwaith, ac ni ddylai ei werth fod yn fwy na'r hyn a nodwyd yn yr hysbyseb. (Gweler tudalen 12 am ragor o fanylion).

C. Sut mae Corff Prynu Canolog yn cael ei ddiffinio?

A. Mae Rheoliad 2 yn Rheoliadau 2015 yn diffinio Corff Prynu Canolog fel a ganlyn: "A contracting authority which provides centralised purchasing activities and which may also provide ancillary purchasing activities." Gall Corff Prynu Canolog weithredu fel 'cyfanwerthwr' yn cyflenwi i awdurdod ar sail contractau y mae wedi eu dyfarnu ei hun a / neu ddarparu mynediad i awdurdodau contractio i gytundebau fframwaith neu systemau prynu dynamig y mae wedi eu sefydlu. (Gweler tudalen 10 am ragor o fanylion).

C. Sut alla i sicrhau nad yw cwmnïau bach a chyflenwyr trydydd sector yn cael eu cau allan o dendr fframwaith mawr?

A. Mae gwahanol ffyrdd o wneud hyn. Ceisiwch ddod i adnabod eich marchnad ac os oes modd rhannwch y contract yn lotiau. Ymgysylltwch â chyflenwyr a darparwyr lleol ymlaen llaw er mwyn datblygu strategaeth lotio briodol, a thrwy hynny sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gyfleoedd. Defnyddiwch dull gweithredu cymesur sy'n seiliedig ar risg, a gwnewch yn siŵr bod y tendr yn addas ar gyfer consortia yn unol â'r Canllawiau Ceisiadau ar y Cyd, fel bod cyflenwyr bach yn gallu dod at ei gilydd i wneud cais os ydynt yn dymuno. Defnyddiwch y weithdrefn agored, hysbysebwrch yn eang ar GwerthwchiGymru, peidiwch â gosod trothwyon ariannol sy'n rhy uchel, cynhwyswch gymalau Budd i'r Gymuned a/neu opsiynau is-gontractio. Anogwch brif gontractwyr i hysbysebu cyfleoedd is-gontractio drwy ddefnyddio'r Hysbysiadau Contractau Prynwyr-Cyflenwyr ar <https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/>

C. Sut alla i sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o effeithiau cadarnhaol ar yr economi drwy fy fframwaith?

A. Gallwch ddefnyddio polisi Budd i'r Gymuned lle bo'n briodol. Mae hyn yn golygu eich bod yn cynnwys cymalau cymdeithasol yn eich cytundeb fframwaith, gan sicrhau bod cyflogi a hyfforddi pobl sydd dan anfantais a/neu brentisiaethau yn digwydd drwy eich gofyniad. Gallai mathau eraill o Fudd i'r Gymuned fod o natur addysgol, ee y cyflenwr yn ymweld ag ysgolion i siarad gyda'r plant am ei waith neu am y diwydiant y mae'n ymwneud ag ef, neu gynnig cyfle i ysgolion ymweld â safle gweithgynhyrchu / canolfan ddosbarthu, etc. (Gweler tudalen 22 am ragor o fanylion).

C. A yw'n bosibl cyfyngu nifer y lotiau y gall cyflenwyr wneud cais amdanynt?

A. Ydy. Gall awdurdodau contractio nodi y gellir cyflwyno tendrau am un lot, am nifer o lotiau neu am y lotiau i gyd. Yn ychwanegol at hyn, gallant gyfyngu nifer y lotiau y gellir eu dyfarnu i un cwmni sy'n cyflwyno tendr. (Gweler tudalen 18 am ragor o fanylion).

C. Sut mae 'hunan-lanhau' yn effeithio ar y cam dewis cyflenwyr?

A. Os yw'r seiliau dros waharddiad gorfodol neu ddewisol yn berthnasol i rywun sy'n gwneud cais, rhaid rhoi cyfle iddo ddarparu tystiolaeth o 'hunan-lanhau', hynny yw darparu tystiolaeth yn dangos ei fod wedi cymryd camau digonol a phriodol i gywiro'r sefyllfa er mwyn sicrhau na fydd y broblem yn digwydd eto ac y gellir ei ystyried yn ddibynadwy. Os yw'r prynwr o'r farn fod tystiolaeth o'r fath yn foddhaol, ni fyddai ei wahardd yn gam cymesur. (*Gweler tudalen 27 am ragor o fanylion*).

C. A yw cael fframwaith yn golygu nad oes rhaid i ni ystyried cynaliadwyedd a materion eraill fel TUPE?

A. Nac ydy. Nid yw defnyddio cytundebau fframwaith yn dileu'r rhwymedigaeth ar awdurdodau contractio i roi sylw i faterion cynaliadwyedd, cydymffurfio â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol neu gyflawni unrhyw ofynion eraill sy'n gysylltiedig â gweithwyr lle bônt yn berthnasol. (*Gweler tudalennau 21 – 23 am ragor o fanylion*).

C. Rwy'n bryderus bod perygl i weithwyr yn y gadwyn gyflenwi gael eu hecsbloetio – pa gamau allaf i eu cymryd?

A. Bydd cwblhau'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd yn ystod y cam cynllunio yn helpu i ganfod pa risgiau ecsbloetio gweithwyr sy'n bodoli gyda'r caffaeliad ac yn eich galluogi i roi camau lliniaru ar waith. Yn ychwanegol at hyn, gallwch ymrwmo i'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Gallwch hefyd annog eich cyflenwyr a chwmnïau eraill sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi i ymrwmo i'r Cod. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern ac arferion gweithio annheg. (*Gweler tudalen 22 am ragor o fanylion*).

C. Rwy'n trefnu trefniadau gofal cymdeithasol. Tybed ai fframwaith yw'r opsiwn gorau?

A. Yn lle gosod cytundeb fframwaith, gallech ystyried system brynu ddynamig. Mae system brynu ddynamig yn weithdrefn sydd ar gael ar gyfer contractau am nwyddau, gwaith a gwasanaethau a ddefnyddir yn aml sydd ar gael yn gyffredinol ar y farchnad. Un ffactor pwysig o ran system brynu ddynamig yw'r ffaith nad yw'n cau cyflenwyr allan, a gall cyflenwyr newydd ymuno unrhyw bryd, cyn belled eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dewis. Gallai system brynu ddynamig fod yn fwy addas ar gyfer gofynion gofal cymdeithasol na fframwaith gan y byddai'n cynnig mwy o hyblygrwydd ac ystod ehangach o ddarparwyr i ddiwallu anghenion dinasyddion.

C. Oes rhaid cael cyfnod segur cyn gwneud cytundeb fframwaith neu ar gyfer contractau yn ôl y gofyn?

A. Yn ôl Rheoliadau 2015 dim ond wrth ddyfarnu'r cytundeb fframwaith ei hun y mae angen cyfnod segur, ac nid yw'n orfodol ar gyfer contractau yn ôl y gofyn o dan y fframwaith. Er hyn, mae cael cyfnod segur wrth wneud contractau yn ôl y gofyn o dan y cytundeb fframwaith yn ymarfer da – bydd yn diogelu'r awdurdod sy'n caffael yn ôl y gofyn rhag hawliadau yn ymwneud ag aneffeithlonrwydd. (*Gweler tudalen 31 am ragor o fanylion*).

C. Faint o gyflenwyr allwn ni eu cael ar gytundeb fframwaith?

A. Gellir cwblhau fframweithiau â chyflenwr unigol neu â nifer o gyflenwyr. Roedd y rheolau blaenorol yn nodi bod angen i fframwaith aml-gyflenwr gynnwys o leiaf dri chyflenwr, ond erbyn hyn caniateir cael dim ond dau ddarparwr. Dylai'r cytundeb fframwaith sefydlu'r meini prawf gwrthrychol a fydd yn berthnasol dan y fframwaith ar gyfer caffael yn ôl y gofyn drwy ddyfarniad uniongyrchol, mini-gystadleuaeth neu gyfuniad o'r ddau. (*Gweler tudalen 32 am ragor o fanylion*).

C. Pam y mae rheoli contract mor bwysig?

A. Mae trefniadau rheoli contract effeithiol yn allweddol er mwyn sicrhau bod cyflenwyr ar y fframwaith yn cyflawni eu rhwymedigaethau dan y contract, bod unrhyw Fudd i'r Gymuned yn cael ei gyflawni a bod perfformiad yn cael ei fonitro drwy Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA). *(Gweler tudalen 33 am ragor o fanylion).*

C. Alla i addasu fy nghytundeb fframwaith yn ystod ei gyfnod?

Mewn rhai amgylchiadau penodol mae'n bosibl addasu contract ar ôl iddo gael ei ddyfarnu heb fod angen ei ail-hysbysebu yn OJEU. Caniateir addasu pan nad yw'r addasiad yn un sylweddol, pan mae'r contract yn cynnwys cymalau adolygu clir, pan mae angen rhagor o gyflenwadau (rheol cynnydd o 50% ar y mwyaf) a phan mae angen cyflenwr newydd oherwydd methdaliad neu amgylchiadau tebyg. *(Gweler tudalen 34 am ragor o fanylion).*

15. Canllawiau ac Offer

Dyma rai o'r canllawiau polisi a'r offer ategol sydd ar gael i chi eu defnyddio yn eich gweithgaredd caffael (yn nhrefn yr wyddor):-

- Arferion Cyflogaeth mewn Prosiectau a Ariennir ag Arian Cyhoeddus <http://prp.gov.wales/toolkit/?lang=cy>
- Asesiadau Risg Cynaliadwy <http://prp.gov.wales/toolkit/?lang=cy>
- Cyfleuster Hysbysiadau Contractau Prynwyr-Cyflenwyr <https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/>
- Canllaw ar Fudd i'r Gymuned ac Offeryn Mesur <http://prp.gov.wales/toolkit/?lang=cy>
- Canllawiau ar Brynu Bwyd Diogel / Siarter Bwyd <http://prp.gov.wales/planners/food/?lang=cy>
- Canllawiau Cyfrif Banc Prosiectau <http://prp.gov.wales/toolkit/?lang=cy>
- Cosbrestu yn y Diwydiant Adeiladu <http://prp.gov.wales/toolkit/?lang=cy>
- Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) <http://prp.gov.wales/toolkit/?lang=cy>
- Datganiad Polisi Caffael Cymru <http://prp.gov.wales/?skip=1&lang=cy>
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/102/pdfs/uksi_20150102_en.pdf
- Trydydd Sector a Busnesau a Gynorthwyr <http://prp.gov.wales/toolkit/?lang=cy>

16. Cydnabyddiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r cyhoeddiadau a ganlyn a gwybodaeth gan y sefydliadau isod i ategu ei hymchwil ei hun wrth lunio'r canllawiau hyn:-

- 'Amendments to Contracts During their Term', Canllawiau gan Wasanaethau Masnachol y Goron
- 'Changes to Procedures', Canllawiau gan Wasanaethau Masnachol y Goron
- Cyfarwyddeb Caffael Cyhoeddus yr UE 2014/24/EU
- 'Framework Agreement', Canllawiau gan Wasanaethau Masnachol y Goron, Swyddfa'r Cabinet, 2015
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Sefydliad Siartredig Prynau a Chyflenwi (CIPS)

- 'Small Supplier Big Opportunity: Flagging your Contracts to SMEs', OGC / BIS, 2010
- 'Smaller Supplier Better Value', Swyddfa'r Cabinet, 2005
- The new SME Definition, User Guide and Model Declaration, Enterprise & Industry Publication (2005)
- 'User Guide to the SME Definition' gan y Comisiwn Ewropeaidd, Cyf. Ares(2016)956541 - 24/02/2016